# Y CARDI BACH

Papur Bro Dyffryn Taf

Cariad o beth Cardi Bach

Rhifyn 444 | Medi 2023 | Pris £1


# CANOLFAN GYMDEITHASOL FFYNNONWEN

**Dathlu yr Hanner Canfed Penblwydd**

Mawr fi'r edrych ymlaen at y dathliad a gynhaliwyd ar ddydd Sadwrn, 29ain Gorffennaf ac yn wir bu yn ddiwrnod i'w gofio. Braint oedd croesawu y Parchedig Aled Gwyn i agor y gweithgareddau gan mae yntau awgrymodd, hanner can mlynedd yn ôl, y dylai'r gymuned brynu'r adeilad. Prynwyd hi wrth y Cyngor Sir am £100 yn 1973 ar y telerau ein bod yn gofalu a defnyddio'r adeilad.  Daeth tyrfa luosog ynghyd i weld yr adeilad ar ei newydd wedd. Cafwyd araith hyfryd gan Aled a rhoddodd fraslun o ddechreuad y Ganolfan a'r Cylch Meithrin.



Ei wraig Menna a sefydlodd y Cylch Meithrin. Cyflwynwyd rhodd i Aled a Roy sef, soned Rhoswen ar" Cau Ysgol Ffynnonwen 1972", wedi ei fframio. Ymhen byr o amser fe werthwyd y nwyddau ar y stondinau. Mwynhaodd pawb amser yn edrych ar yr arddangosfa luniau a ddaeth yn ôl a llawer o atgofion. Cafodd y plant sbri yn y mabolgampau ac yn wir cafodd y plant ac oedolion sbri yn chwarae'r gemau – y cyfan wedi eu creu gan aelodau'r pwyllgor.

Un o binaclau'r dydd oedd dadorchuddio'r garreg er cof am Rhoswen Llewellyn, Garry Brame a Gareth Griffiths. Mae gardd wedi ei chreu gyda phlanhigion a thair coeden i gofio amdanynt.

Roy Llewellyn, y cadeirydd oedd y Llywydd am y dydd. Cyflwynwyd rhoddion i Roy, Beti, a Meinir am eu gwaith caled o arwain y trefniadau. I orffen y dydd cafwyd pryd o fwyd blasus a baratowyd a'i weini gan Colin Harries a'i staff. Mae ein diolch yn fawr i fusnesau lleol am noddi'r achlysur a rhoi gwobrau raffl. Diolch hefyd i'r gymuned am fenthyg tipyn o nwyddau er mwyn hwyluso'r trefniadau. Ond yn arbennig diolch i aelodau'r pwyllgor am eu gwaith caled yn paratoi a chynnal y diwrnod. Esiampl dda o gydweithio . Cawsom ddathliad teilwng a diwrnod i gofio.

*(Mwy o luniau ar dudalen 10)*

## Dinistrio'r iet drachefn – lawnsio ymgyrch Codi Cerflun Twm Carnabwth

Cynhaliwyd noson arbennig iawn yng Nghaffi Beca, Efailwen ar nos Lun, Gorffennaf 17eg pan lawnsiwyd ymgyrch Codi Cerflun Twm Carnabwth. Daeth cynulleidfa fawr ynghyd i wylio ail gread o chwalu'r dollborth a cymerwyd rhan gan aelodau o Hoelion Wyth Beca ac aelodau'r gymuned disgyblion Ysgolion Cynradd Beca, Brynconin a Maenclochog,  Corlan, Gwen Griffiths, Teifryn Rees a Trystan Llyr Griffiths.



Mae'r ffyrnigrwydd yn amlwg – lawr â'r iet bois!

Y gwrthryfelwyr ar y noson oedd Robert James, Eurfyl Lewis, Tudur Lewis, Eifion Griffiths, Emrys Llewelyn, Vernon Beynon, Dyfed Davies, Emyr John, Iwan Rees, Mair Rees, Elsi Rees, Mair Davies, Ieuan Davies, Iori Davies, Russell Davies, Paul Jenkins, Rhodri Evan fel Twm Carnabwth a Richard Thorne fel Thomas Bullin.

*parhad ar dudalen 10*

## Y CARDI BACH

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis 01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Iola Wyn 07870 100831 |
| **Ysgrifennydd**: | Beti Wyn James 01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies 01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White 01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Wyn a Meirwen Evans 01994 448447 |
| **i'ch diddori** | John Arfon Jones 01994 240536 |
| **Cornel y Dysgwyr::** | Albie Abbott 01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips 01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | |
| **Cornel Garddio:** | John Davies 01994 240059 |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **<u>10fed</u>** o bob mis, drwy e-bost os yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin, Cwmfelin Mynach, Hendygwyn-ar-Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.


Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.

# Colofn y Mis

*gan Iola Wyn, San Cler*

Gyda Chwpan Rygbi'r Byd yn ei anterth, mae cannoedd o blant o Ffrainc wedi bod yn canu ein hanthem cyn gemau Cymru. A hyfryd iawn oedd gwylio fideo ar y we yn ddiweddar o ddisgyblion Collège Ducos du Hauron yn ardal Bordeaux yn ymarfer ac yn dysgu geiriau Hen Wlad Fy Nhadau yn yr ystafell ddosbarth. Gwych hefyd oedd clywed Madame Cathy Judit, eu hathrawes gerddoriaeth yn pwysleisio pa mor bwysig oedd hi i'r plant nid yn unig i ddarganfod yr anthem ond hefyd i ddarganfod Cymru.

Ac wrth eu gwylio yn canu ac yn ynganu mor wych, fe lithrodd y cof yn ôl i'r cyfnod yn Saint-Brieuc, Llydaw bron i 40 mlynedd yn ôl erbyn hyn, a finne ar daith gyfnewid gyda'r ysgol. 'Dw i'n cofio cyrraedd yr ystafell ddosbarth gyda ffrind yr oeddwn wedi gefeillio â hi drwy'r ysgol - Anne Hélène. Ac er fy mod i wedi dechrau dysgu Ffrangeg yn yr ysgol, roedd yn dipyn o sioc i'r system sylweddoli nad oeddwn yn deall dim, gan fod pawb yn siarad mor gyflym, a doedd Je m'appelle Iola, Je viens du Pays de Galles, ddim yn ddigon i gynnal sgwrs gall.

Roedd y profiad o fyw gyda theulu Ffrengig hefyd yn werthfawr a chael croeso mawr ar aelwyd Anne Hélène yn Saint-Brieuc. 'Dw i'n cofio bwyta croissant a baguette am y tro cyntaf a dwli ar hufen iâ blas coffi. Roedd y tripiau i wahanol atyniadau fel Mont-Saint-Michel yn dipyn o antur a chyfle i gael mymryn o flas ar annibyniaeth.

Er fy mod i wedi teithio dramor dipyn ers yr wythdegau, dyma'r atgofion sydd gliriaf yn y cof, mae'n rhaid cyfaddef, a hynny am wn i, am fy mod yn profi cynifer o bethau am y tro cyntaf, o'r hwylio ar fferi i fwyta croissant ac yfed paned o goffi mewn bowlen.

Wrth gwrs gyda phob taith gyfnewid roedd y ffrind o Lydaw yn dod draw atom ni, i'n cartref ac i'n hysgol, ac yn profi yr un math o brofiadau. Ac â dweud y gwir, roedd yn gyfle i ninnau hefyd i ymweld ag atyniadau yng Nghymru, o ganolfan Llechwedd ym Mlaenau Ffestiniog i ogofâu Dan-yr-Ogof. Oni bai am hynny, mae'n bur debyg na fyddwn yn gwybod y gwahaniaeth rhwng stalagmit a stalactit hyd heddiw !

Ac wrth gwrs, nid yn unig ar dripiau cyfnewid tramor roedd cyfle i dreulio cyfnodau gyda theuluoedd ar eu haelwyd. Pwy sy'n cofio aros gyda theulu wrth fynd i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ? 'Dw i'n cofio mwynhau pryd o fwyd cartre' gyda ham go iawn, a chael clonc wedi hynny o amgylch y bwrdd, a cheisio dod i arfer â gwahanol acenion, tafodieithoedd a geirfa y tu hwnt i'n milltir sgwâr.

Mae gen i atgofion o gyfnod yn aros ar fferm yn ardal Yr Wyddgrug, a gweld cathod bach yn y sied, a theithio yn y car i weld golygfa fendigedig o Ddyffryn Clwyd. Ac yna'r cywilydd wrth i ffrind ysgol eistedd ar gadair fechan deircoes yn y cartref, a thorri un o'r coesau, cyn i ni'n dwy ddeall mai '*ornament'* oedd hi, nid cadair go iawn !

Roedden nhw'n brofiadau mor werthfawr, ac yn rhoi ymwybyddiaeth i ni yn ifanc iawn o wahanol ieithoedd, acenion, arferion, traddodiadau ac agweddau, boed hynny yn Llydaw neu yn Llanfairpwll. Ac rwy'n chwerthin bellach yn cofio mai oherwydd yr ymweliadau hynny, y penderfynais roi'r gorau i gymryd siwgwr yn fy nhe a choffi, am nad oedd pawb yn gwneud hynny !

Ond wrth gwrs, cyfnod a fu yw fy mhlentyndod. Mae'r math yma o dripiau

*parhad ar dudalen 3*

**GOHEBWYR LLEOL**

| | |
|---|---|
| ALMA: | Margaret Evans<br>01994 230761 |
| BANCYFELIN: | Merle Jones<br>01267 211300<br>eleanormerle@icloud.com |
| CAPELI BANCYFELIN a CANA | Parch, Beti-Wyn James<br>beti.wyn@icloud.com |
| BLAENWAUN: | Tegwen James<br>01994 448223 |
| CAPEL MORIAH (Blaenwaun) | Meinir Eynon<br>01437 563540<br>meinireynon@gmail.com |
| CEFNYPANT: | Valerie Davies<br>01994 448475<br>vdavies55@outlook.com |
| CLUNDERWEN: | Lynys Davies<br>01437 563319<br>mam_dadbox@yahoo.co.uk |
| CWMBACH: | Jane Evans<br>01994 448790<br>teulujames@btinternet.com |
| CWMFELIN MYNACH: | Nansi Evans<br>01994 448392 |
| EFAILWEN: | Angharad Booth Taylor<br>01994 419221<br>angharad.boothtaylor@btinternet.com |
| GELLIWEN: | Peter Crowdie<br>01994 230033<br>peter.crowdie@btinternet.com |
| HENDY-GWYN: | Heather Jenkins<br>01994 240138<br>jenkinsh2809@gmail.com |
| (Newyddion Tabernacl) | Y Parch. Guto Llywelyn<br>01269 851655<br>gutollywelyn@hotmail.com |
| HENLLAN - FALLTEG: | Sian Jackson<br>01994 240981<br>jacksonfawr@btinternet.com |
| LOGIN a CWM MILES | Meinir Eynon<br>01437 563540<br>meinireynon@gmail.com |
| LLANBOIDY: | Norah Heseltine<br>01994 448241<br>sales@shwldimwl.com |
| LLANDYSILIO: | Delyth Roblin<br>07882 639867<br>delythroblin@outlook.com |
| LLANGLYDWEN: | Jill Lewis<br>01994 419495<br>jill.lluest@gmail.com |
| LLANGYNIN: | Susan Phillips<br>01994 231066<br>siwperiw@gmail.com |
| MEIDRIM: | Patsy Lewis<br>01994 230369<br>talarwen@hotmail.com |
| PENYBONT: | Linda Davies<br>01994 484657<br>lindadavies02061955@icloud.com |
| PWLLTRAP: | Beti Wyn James<br>01994 230966<br>betiwynjames@aol.com |
| RHYDYCEISIAID: | Doreen Adams<br>01994 240581 |
| RHYDWILYM: | Eilir Davies<br>01994 419649<br>eilirtyrhos@btinternet.com |
| SAN CLER: | Beti Wyn James<br>01994 230966<br>betiwynjames@aol.com |
| TRELECH: | Alyson Harries<br>01994 484359<br>alysonharries@btconnect.com |

wedi hen ddiflannu. Ac mae'r rheswm dros hynny yn gwbwl ddealladwy. Bu'n rhaid llunio rheolau llymach er mwyn gwarchod plant. Ac er gwaethaf holl fanteision y cynlluniau gefeillio hynny, mae gwarchod plant wrth reswm yn flaenoriaeth.

Ar adegau, mae'r drygioni yn yr hen fyd yma yn gorchfygu'r daioni yn anffodus. Ac ry'n ni fel cymdeithas wedi gorfod addasu er mwyn cynnig cyfleoedd eraill tebyg i blant a phobl ifanc, er mwyn iddyn nhw fod yn ddinasyddion y byd, sy'n gwerthfawrogi a pharchu ffyrdd o fyw a thraddodiadau, boed hynny 70 milltir i ffwrdd neu bendraw'r byd.

# LLEWYRCH I'M LLWYBR

*gan Y Parchg Huw George*

**'Jam Heddi !'**

Mae dyfodiad mis Medi fel dechrau ras … ras sydd yn gorffen ym Methlehem, Jwdea, a genedigaeth yr Arglwydd Iesu. Un waith mae'r plant yn mynd nôl i'r Ysgol, mae'r olwynion yn troi a ninnau'n dechrau'r daith. Mae taith gerdded Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda yn ddechreuad arbennig i'r daith ac erbyn i chi ddarllen y geiriau hyn bydd y ffyddloniaid wedi cerdded o amgylch ardal brydferth Llanboidy.

Wrth gwrs, yn ystod mis Medi a mis Hydref mae Capeli ac Eglwysi'r ardal yn gartref i'r Cwrdd Ddiolchgarwch. Mae'n wir i ddweud nad yw'r cyfarfodydd hyn mor amlwg a phoblogaidd ag y bu yn y gorffennol ond, mae'n bwysig inni oedi ar ein taith i 'Ddiolch'. Ac mae'r cantorion yn edrych ymlaen at ddod ynghyd i'r Gymanfa Ganu yng nghanol mis Hydref. Cyn gwyliau hanner tymor yr Ysgolion, bydd yr athrawon yn holi hanes sgript y cyflwyniad Nadolig gan eu bod yn bwriadu paratoi'r 'Sioe Nadolig' cyn dychwelyd i'r Ysgol. Ac unwaith mae'r Ysgol yn ail-gydio, mae cyflymder y daith i Fethlehem yn cynyddu. Bydd 'Hwyl y Nadolig' yn Neuadd Llanboidy nos Wener, 1af Rhagfyr a Charolau'r Urdd ym Mlaenconin ar y 6ed. Bydd nifer fawr o oedfaon a chyfarfodydd ac ambell wledd cyn inni gynnal ein Cwrdd Nadolig yn ein Capeli a'n Heglwysi unigol. Ac yna … byddwn yn 'Dathlu'r Dyfod.'

Y broblem fawr yw ein bod yn gosod y digwyddiadau hyn i gyd yn ein dyddiadur gan edrych ymlaen yn eiddgar at bob un ohonynt gan anghofio un peth pwysig … maent i gyd yn y 'dyfodol' … beth am y 'presennol' ? Gyda'r holl drefnu am yr hyn sydd eto'i ddod, mae'n bosib ein bod yn colli ar nifer o fendithion, y bendithion hynny sydd yn dod yn yr 'heddiw'. Mae cael rhywbeth i edrych ymlaen ato yn hyfryd ond peidiwn â cholli'r cyfle i fwynhau a llafurio yn yr 'heddiw'. Nid 'jam fory' yn unig yw neges yr Efengyl ond 'jam heddi' a chyfle i'w flasu a'u rhannu ac yna, fel y genedl gynt yn yr anialwch o dan arweiniad Moses, cael 'manna' newydd bob bore.

Yn llyfr Galarnad inni'n darllen y geiriau hyn, 'Nid oes terfyn ar gariad yr Arglwydd, ac yn sicr ni phalla ei dosturiaethau. Y maent yn newydd bob bore, a mawr yw dy ffyddlondeb.' Mwynhewch yr 'edrych ymlaen' at yr hyn sydd i ddod, ond peidiwch anghofio 'edrych o gwmpas' ar yr hyn sydd gennym, yr hyn sy'n dod o'i ddwylaw Ef … bob bore o'r newydd. Boed Bendith.

# *I'ch diddori* gan John Arfon

Yr oedd dau brif reswm dros arbed i'r ceffyl waith trwm yn yr hen fyd. Yn gyntaf oll, anifeiliaid go fychan oeddynt. Er eu bod yn fuan a chwim ac yn wydn, nid oedd ganddynt nerth yr ychen. Ni fuasai eu bychander na'u gwander yn ddigon i'w cadw o'r wedd: yr oedd rheswm arall. Ni allsai ceffyl dynnu a'i holl bwysau nes dyfeisio'r goler galed rywbryd tua'r ddegfed ganrif. (Francis G Payne)

Yr oedd gan Twm a Huw awr gron i ddisgwyl am y trên, Gwelsant fod mynwent yn ymyl yr orsaf ac aeth y ddau ati i ddarllen y cerrig beddau."Clyw beth sydd ar y garreg yma" galwodd Twm. "Yma gorwedd Arthur Morgan, cyfreithiwr a gŵr gonest". Ymatebodd Huw ar amrantiad" Mae yna ddau wedi eu claddu yn y fan yna yn sicr ddigon i ti".

Y mae goleuni yn dibynnu ar dywyllwch y dioddefaint sy'n rhagflaenu'r droedigaeth. Dyma sut mae Jung yn dweud "Y mae angen tywyllwch ar oleuni os amgen sut y gallai ymddangos fel goleuni,"

"Ymha le y dodwyd Adda ac Efa ar ôl eu creu?" gofynnodd yr holwr. Wedi ennyd o ddistawrwydd, gofynnodd rhyw grwt bach iddo - "Ydach chi'n siwr mai eu dodwy gawson nhw?".

Hysbysiad yn ffenestr bwyty :-
"Dewch i mewn a bwytewch cyn i ni'n dau newynnu."

Bu dau o ffyddloniaid mwyaf y posau rwyf wedi rhoi o'ch blaen yn dathlu penblwyddi arbennig yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i Tegwen James. Blaenwaun yn 90 oed, a Peter Crowdie, San Cler yn 80 oed. Pob dymuniad da ichwi ac iechyd yn y dyfodol.

Llongyfarchiadau a phenblwydd hapus iawn i Eira Parry, Cartref Waungron (gynt o Landdewi) ar ddathliad ei phenblwydd yn 92 oed yn ddiweddar. Bu'n ffrind arbennig a charedig i Ruby tra bu yn y cartref.

Dyma atebion Cwrosw a Chwilrif Mehefin

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| X | O | O | X | X | O |
| X | O | X | O | O | X |
| O | X | X | 0 | X | O |
| O | X | O | X | O | X |
| X | O | X | O | O | X |
| O | X | O | X | X | O |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | 3 | 7 | 1 | 4 | 2 | 9 | 5 | 6 |
| 6 | 9 | 2 | 3 | 5 | 7 | 1 | 4 | 8 |
| 4 | 5 | 1 | 9 | 6 | 8 | 3 | 2 | 7 |
| 5 | 6 | 4 | 8 | 2 | 1 | 7 | 3 | 9 |
| 2 | 7 | 8 | 6 | 3 | 9 | 5 | 1 | 4 |
| 3 | 1 | 9 | 4 | 7 | 5 | 8 | 6 | 2 |
| 9 | 8 | 6 | 5 | 1 | 4 | 2 | 7 | 3 |
| 7 | 4 | 5 | 9 | 2 | 3 | 6 | 8 | 1 |
| 1 | 2 | 3 | 7 | 8 | 6 | 4 | 9 | 5 |

Dyma ddau bôs i'ch difyrru y mis hwn

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | X | | | |
| | | | O | | |
| X | | | | | |
| | O | | O | | |
| | | | | X | |
| | O | | | X | X |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 5 | 9 | | 3 | | 1 | 8 | |
| 1 | | 2 | | | | 4 | | |
| | | | | 7 | | 9 | | 5 |
| 6 | 3 | | | 1 | | 5 | | |
| | 1 | 4 | 7 | | | 8 | | 2 |
| 7 | | | | | 6 | | 9 | |
| | 8 | | 9 | | | | 4 | |
| | | | 1 | | 4 | 6 | | |
| 2 | | | | | 5 | | | |

Dyma atebion posau mis Mehefin.

**Pôs A**

1. Tom, 2. William, 3. Fictoria, 4, Neil 5. Emlyn, 6.Iwan, 7, Alun, 8. Ystrad, 9. Castell, 10. Noel.

Wedi ail drefnu llythrennau cyntaf yr atebion uchod, dylech gael enw'r Cymro a'r canwr enwog sef **Tecwyn Ifan.**

**Pôs B -** Datrys atebion y Chwilrif Mawr

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 | 3 | 9 | 2 | 7 | 11 | 4 | 10 | 5 | 8 | 1 | 12 |
| 10 | 5 | 7 | 1 | 8 | 6 | 12 | 2 | 11 | 4 | 9 | 3 |
| 4 | 8 | 12 | 11 | 9 | 3 | 1 | 5 | 7 | 2 | 6 | 10 |
| 8 | 2 | 10 | 9 | 4 | 1 | 11 | 3 | 6 | 12 | 7 | 5 |
| 1 | 4 | 6 | 7 | 2 | 12 | 5 | 8 | 10 | 11 | 3 | 9 |
| 5 | 12 | 11 | 3 | 6 | 9 | 10 | 7 | 8 | 1 | 4 | 2 |
| 7 | 9 | 5 | 6 | 3 | 2 | 8 | 11 | 1 | 10 | 12 | 4 |
| 11 | 10 | 2 | 12 | 1 | 4 | 9 | 6 | 3 | 7 | 5 | 8 |
| 3 | 1 | 8 | 4 | 5 | 10 | 7 | 12 | 9 | 6 | 2 | 11 |
| 12 | 6 | 1 | 8 | 11 | 5 | 3 | 4 | 2 | 9 | 10 | 7 |
| 2 | 7 | 4 | 5 | 10 | 8 | 6 | 9 | 12 | 3 | 11 | 1 |
| 9 | 11 | 3 | 10 | 12 | 7 | 2 | 1 | 4 | 5 | 8 | 6 |

Dyma atebion posau mis Gorffennaf/Awst

Atebion y Cwrosw a'r Chwilrif

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| X | O | X | O | O | X |
| O | X | O | X | X | O |
| X | O | O | X | O | X |
| O | X | X | O | X | O |
| O | O | X | X | O | X |
| X | X | O | O | X | O |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | 8 | 1 | 3 | 9 | 6 | 7 | 5 | 4 |
| 5 | 7 | 3 | 2 | 4 | 1 | 6 | 9 | 8 |
| 9 | **6** | 4 | 8 | 7 | 5 | 1 | 3 | 2 |
| 1 | 5 | 6 | 9 | 8 | 2 | 4 | 7 | 3 |
| 4 | 2 | 9 | 7 | 5 | 3 | 8 | 1 | 6 |
| 7 | 3 | 8 | 6 | 1 | 4 | 9 | 2 | 5 |
| 3 | 9 | 2 | 4 | 6 | 7 | 5 | 8 | 1 |
| 6 | 1 | 7 | 5 | 2 | 8 | 3 | 4 | 9 |
| 8 | 4 | 5 | 1 | 3 | 9 | 2 | 6 | 7 |

**Atebion "O Gam i Gam"**

1. Llanc, 2. Crwn, 3. Nain, 4. Nadu, 5. Urddo, 6. Ofni, 7. Iarll, 8. Llais, 9. Sain, 10. Nosi, 11. Iard, 12. Difa, 13. Achub, 14. Blas, 15. Saim, 16. Mynd.

Y ddinas ar draws y canol oedd **Llundain**

**Dyma atebion Llenwi'r ddau groesair**

**A**

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ■ | 1 C | ■ | 2 G | W | Y | 3 M | O | 4 N |
| 5 M | A | R | W | ■ | ■ | A | ■ | W |
| ■ | S | ■ | 6 E | N | Ll | I | ■ | Y |
| 7 A | G | E | N | ■ | ■ | 8 N | 9 O | D |
| ■ | L | ■ | T | ■ | 10 H | ■ | Ff | ■ |
| 11 M | U | 12 D | ■ | ■ | 13 Y | Ch | E | N |
| O | ■ | 14 E | M | Y | N | ■ | R | ■ |
| E | ■ | R | ■ | ■ | 15 O | D | Y | N |
| 16 S | W | I | G | O | D | ■ | N | ■ |

**B**

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ■ | 1 E | ■ | 2 Ll | E | W | 3 Y | G | 4 U |
| 5 T | I | L | A | ■ | ■ | N | ■ | R |
| ■ | L | ■ | 6 F | O | R | Y | ■ | Dd |
| 7 C | R | E | U | ■ | ■ | 8 S | 9 U | O |
| ■ | A | ■ | R | ■ | 10 O | ■ | N | ■ |
| 11 A | Dd | 12 A | ■ | ■ | 13 G | W | I | N |
| M | ■ | 14 T | A | I | L | ■ | A | ■ |
| O | ■ | A | ■ | ■ | 15 A | D | W | Y |
| 16 S | A | L | M | A | U | ■ | N | ■ |

---

Dyma bosau y mis hwn

**A.** Croesair bach rhwydd iawn i ddatrys ond bod yr atebion i gyd yn rifau.

**Ar Draws**


1. Dwblu mathau o Heinz.
4. Blwyddyn concro Everest.
5. Nifer o bwysi mewn 4 tunnell.
6. Munudau mewn 12 awr 38 munud.

**I Lawr.**

1. Diwedd yr ail ryfel byd.
2. Blwyddyn concro Armada Sbaen.
3. Ceiniogau mewn £1–15s–10c.
4. Y rhediad perffaith yn snwcer.

| | | | |
|---|---|---|---|
| ■ | 1 | 2 | 3 |
| 4 | | | |
| 5 | | | |
| 6 | | | ■ |

**B.** Ceisiwch ddatrys y croesair canlynol



Cymerir ch, dd, ff,, ng ac yn y blaen fel un llythyren

Dyma'r cliwiau

Ar Draws
1. Hen dreth i'w thalu i'r Eglwys. (5)
4. Llaw y T.T. yn simsan wrth arllwyso diod. (6)
9. Un sy'n symud i fyw i wlad arall. (7)
10. Defnyddiaf hwn i waredu camgymeriadau. (5)
11. Gohirio a chadw'n ôl o Gideon. (4)
12. Cymeryd y mwynhad i ffwrdd, (7)
13. Tra bo'r rhif yma. (3)
14. Curo i fod yn addas, (4)
16. Mynyddoedd yn ardal Llŷn. (4)
18. Anifeiliaid anwes. (3)
20. Roedd yr Iesu yn traethu fel hyn. (7)
21. Llosgfynydd yn Fietnam. (4)
24. Arweinydd y Protestaniaid. (5)
25. Nid yw pethau'n dda, os yw hwn o flaen ysbryd, (7)
26. Metal gwerthfawr yn rhoi'r amser gorau inni. (3,3)
27. Bu un y Mans yn boblogaidd ar y teledu. (5)

I Lawr
1. Cysegredig neu sanctaidd. (6)
2. Gall y digof greu galar. (5)
3. Mis i ladd a chasglu llafur. (4)
5. Cân enwog Tecwyn ac eraill. (1,4,3)
6. Awr braf all roi cynnig inni. (7)
7. Nid môr sydd yn olygfa i'r pictiwr. (6)
8. Coelio fod pum cant yn creu. (5)
13. Rhannu nifer o ddisgyblion ar ddiwedd Iau. (7)
15. Dau o anrhegion y Doethion. (3.1.3)
17. Atgynhyrchu neu genhedlu. (6)
18. Gwneud yn anweledig. (5)
19. Gad aur i greu diferiion trist. (6)
22. Hen riant gwrywaidd. (3-2)
23. Fflachiadau awyr yn ystod storm. (4)

***** Dalier sylw. O hyn ymlaen bydd atebion posau'r mis yn ymddangos yn y rhifyn dilynol.***

## Pwysig

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Y Cardi Bach, prynhawn Sul, Hydref 29ain am 4 o'r gloch yng Nghanolfan Hywel Dda. Mae'n gyfarfod pwysig a gofynnir yn garedig am bresenoldeb gohebwyr ac unrhyw un â diddordeb yn nyfodol y papur. Bydd angen gwirfoddolwyr i helpu dosbarthu a chasglu hysbysebion Nadolig.

### Colofn y Dysgwr

Oherwydd salwch nid yw Albie wedi medru paratoi colofn y mis hwn. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddo.

WYN DAVIES a'i FRODYR
ADEILADWYR
Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf
Ffôn. 01437 563300


IFAN DAVIES
Saer Coed

Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA
07875 540469

W.J. KENNETH DAVIES
ei Feibion a'i Ferch

SEIRI COED
a
THREFNWYR ANGLADDAU
Blaenwern, Clunderwen
Ffôn: 01437 563319

# Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,

Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn mwynhau'r tywydd braf yr ydym wedi'i gael yn ddiweddar. Croeso i'r rhai ohonoch sydd wedi ymaelodi oddi ar y rhifyn diwethaf a chroeso cynnes hefyd i'n haelodau newydd.

Gofynnaf yn garedig i'r sawl sydd heb ymaelodi eto, i wneud, drwy ddanfon siec i mi am £10 yn daladwy i 'Clwb 200 Y Cardi Bach', neu dalu drwy'r banc. Rhif didoli'r banc yw 40-46-27 a rhif y cyfrif yw 91020765. Lle mae angen cyfeirnod, rhowch eich enw chi fan hyn. Bydd enwau pawb a wnaiff ymaelodi erbyn diwedd y flwyddyn yn cael eu cynnwys yn y Raffl Fawr ym mis Chwefror y flwyddyn nesaf, gyda chyfleoedd i ennill sawl gwobr ariannol!

Diolch i'r canlynol am ymaelodi'n ddiweddar:-

Alun a Sandra Davies, Erw-Ddôl, Llangynin
Rhydian a Laura Davies, Awel-y-Bryn, Llangynin
Angharad a Stuart Lloyd, Delfryn, Meisgyn
Teleri Gwen ac Elin Hâf Lloyd, Delfryn, Meisgyn
Gerwyn ac Eleanor Williams, 1 Brynbanc, Login
Roy Llewellyn, Bro Gronw, Cwmfelin Mynach
Roy Llewellyn, Bro Gronw, Cwmfelin Mynach
Mair Collinge, 8 Banc Ostrey, San Clêr

Dyma enillwyr fis Gorffennaf:-

£20: 259 - Julie Thomas, Glas y Dorlan, Bancyfelin

£10: 15 - Olew Trefigin, Aberteifi

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth i'r Cardi Bach ac i'r Clwb 200.

Cadwch yn ddiogel,

*Rhian*

ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartredig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk

Pwyllgor Adloniant Llanwinio
Swper Cynhaeaf
yn Neuadd Gymunedol Llanwinio
Nos Wener 6ed Hydref 2023
Tocynnau £10 / Plant cynradd £6
ar gael wrth aelodau'r pwyllgor
*Elw tuag at osod Diffibriliwr yn y gymuned*

AM DDIM
Tŷ Gwydr
yn mesur 8 x 12 troedfedd
Dim ond ei dynnu i lawr a'i glirio.
Ffoniwch 01994 241775 rhwng 6 a 7 y.h.
dydd Llun i ddydd Gwener.




Adrian Llewellyn
Groundworks Cyf



Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concrid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio
Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN
*CLUDIANT*



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR
☎: 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG
HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)
GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW
Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937



# MERCHED Y WAWR

## Gair gan Gyn Lywydd!

Dyma ni felly ar ddechrau tymor yr Hydref 2023 a 'nghyfnod i fel Llywydd Cenedlaethol wedi dod i ben! Mae'n deimlad rhyfedd, ar un llaw, ar ol cyfnod braidd yn anodd achos yr iechyd, roeddwn yn barod i drosglwyddo'r awennau, ond ar y llaw arall, erbyn nawr yn teimlo y gallwn fod wedi parhau am ddwy flynedd arall!

Bu'n ddwy flynedd o fwynhad pur ac rwy'n freintiedig iawn i fod wedi gwneud cymaint o ffrindiau ar hyd a lled Cymru ac wedi dod i adnabod cymaint o aelodau.

Bu'r prosiect Cerdded, Cerdd a Chynefin yn llwyddiant ac rwy'n gobeithio y bydd cerdded yn parhau i fod yn rhan o weithgareddau'r canghennau a'r clybiau am flynyddoedd i ddod.

Cynhaliwyd seremoni Urddo'r Llywydd newydd ym mhafiliwn y brifwyl eleni ym Moduan. Cawsom seremoni hyfryd gyda finnau yn trosglwyddo'r gadwyn hyfryd a'r llywyddiaeth, i'r Llywydd newydd sef Geunor Roberts o Ddinas Mawddwy. Hyfrydwch pur hefyd oedd cyflwyno ein Is Lywydd Cenedlaethol sef Bethan Picton Davies o gangen Ffynnongroes, Sir Benfro! Pwy feddyliai y byddai dwy ohonom o Sir Benfro yn Lywyddion Cenedlaethol o fewn dwy flynedd i'n gilydd!

Mae dyfodol Merched y Wawr yn ddiogel iawn yn nwylo'r ddwy a dymunaf pob llwyddiant iddynt dros y pedair mlynedd nesaf.

Ar nos Wener y penwythnos preswyl ddechrau Medi yn Aberystwyth, daeth fy ngyfnod i ben yn swyddogol a cefais ddiolch eto gan Geunor a'n Llywydd Anrhydeddus, Margarette Hughes.

Mwynhad pur fu'r penwythnos wedyn, eistedd nôl a mwynhau yr arlwy bendigedig oedd ar ein cyfer.

Bu'n benwythnos prysur fel arfer ac wrth edrych yn ôl mae'n anhygoel faint o sesiynau sy'n cael eu cynnal o fewn y penwythnos.

Fe'n croesawyd, ar ôl pryd arbennig o fwyd yn Tamed Da ar gampws y brifysgol, gan Ddirprwy Is Ganghellor Cyfadran y Celfyddydau a Gwyddorau Cymdeithasol - Anwen Jones, ac yna ar ôl y diolchiadau i minnau a Haf Roberts, y cyn Ysgrifennydd Cenedlaethol, fe'n diddanwyd gan Gôr bendigedig Dyffryn Dyfi o dan arweiniad Arfon Williams.

Ar y bore Sadwrn wedyn cawsom glywed am y Gist Heddwch gan Mererid Hopwood, Dafydd Wyn Morgan yn sôn am Awyr Dywyll Cymru a Mynyddoedd y Cambria, ac yna cyn paned, tips ffasiwn gan Sioned Llywelyn Williams – SteiLysh. Ar ôl toriad byr a chyfle i siopa gyda pethau Olyv, SteiLysh, Siop Inc ac Efa Lois, cafwyd dwy sesiwn arall gyda Ffion Rhys yn sôn am Arddangosfeydd Canolfan y Celfyddydau gan gynnwys Arddangosfa Angharad Pearce Jones ac yna Efa Lois yn sôn am Pensaerniaeth, Celf a'r Canolbarth. Am fore prysur, ond diddorol a phleserus tu hwnt.

Ar ôl cinio, cafodd pawb fynd ar wibdaith o'i dewis hwy, aeth rhai ar daith gerdded o gwmpas Aberystwyth o dan arweinyddiaeth Beryl Jenkins; eraill i'r Llyfrgell Genedlaethol i weld arddangosfa Y Gist Heddwch; eraill ar daith bws i gwm Rheidol ac ymweld â Chanolfan Ddwr Staskraft; eraill ar daith bws i Ystarad Fflur ac yna i'r rheiny oedd am ychydig o hoe, mwynhawyd prynhawn rhydd.

Swper unwaith eto yn Tamed Da ac yna noson arall o adloniant. Cafwyd blas o ddrama newydd Theatr Genedlaethol Cymru – Parti Priodas ac yna adloniant yng nghwmni Parti Camddwr a phedwar o ieuenctid Aberystwyth sydd a dyfodol disglair iawn o'u blaenau sef Ioan Mabbut, Beca Fflur Williams, Gruffydd Sion a Steffan Rhys Jones.

Ar y nos Sadwrn hefyd gwobrwywyd buddugwyr y gystadleuaeth limrig a brawddeg, a braint mawr i finnau oedd cael beirniadu'r frawddeg, gyda Bethan Picton Davies yn beirniadu'r limrig. Fel dywedais ar y noson, cefais y fraint yn ystod fy llywyddiaeth o wireddu sawl breuddwyd – arwain Côr ar Lwyfan y Maes yn Nhregaron, cael mynd i Ynys Enlli gyda Rhanbarth Dwyfor, ac yn awr, cael beirniadu'r frawddeg ym mhenwythnos Merched y Wawr! Tipyn o fraint a lot o hwyl!

Cyn troi am adref ar y Sul cafwyd oedfa hyfryd o dan ofal Cangen Mawddwy: Sara Jenkins yn sôn am Llaeth Jenkins ac arallgyfeirio: Jo Hyede yn darllen eu cherddi bendigedig; Rhian Cadwaladr yn sôn am ei llyfr ryseitiau newydd Casa Nadolig, ac yna Jane Aaron a

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid
Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326


DAVIES
Y GWRES
A'I FERCHED
Plymio a Gwresogi
07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com


T. D. LADD
a'i Gwmni
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

Tegwen Morris yn sôn am Dair Gwraig dylanwadol – Cranogwen, Dorothy Bonarjee a Laura Ashley.

Ar ôl cinio bendigedig daeth yn amser ffarwelio a throi am adref. Pawb wedi mwynhau ac wedi cael penwythnos prysur a chofiadwy iawn unwaith eto. Da chi ferched, os nad ydych erioed wedi mynychu Penwythnos Preswyl, ewch amdani. Mae'n llawn hwyl a chymdeithasu. Credwch fi, fel yr wyf wedi dweud droeon, mae angen stamina i fynychu Penwythnos Merched y Wawr, does dim 'wilibowan', ac mae'n werth bob ceiniog! Dewch fis Medi nesaf!

A dyna ni, dwy flynedd wedi hedfan heibio. Diolch i chi aelodau Merched y Wawr a'r Clybiau Gwawr am eich cefnogaeth a'ch cyfeillgarwch yn ystod fy llywyddiaeth. Fel y dwedais ar y dechre, mae wedi bod yn fwynhad pur ac yn gyfnod a fydd yn aros yn y cof am byth, fel un o gyfnodau gorau fy mywyd, nes i Twm bach gyrraedd!! Pob dymuniad da i chi gyd.

*Jill Lewis*

---

### Cangen San Cler



Llongyfarchiadau mawr i Lilwen am ddod yn ail yn y gystadleuaeth trefniant blodau i aelodau Merched y Wawr yn Sioe Fawr, Llanelwedd. "Dinas trwy ffenest" oedd y testun a dyma lun o Lilwen gyda'i threfniant o Abertawe.

---

### Cangen Gronw

Mae aelodau Cangen Gronw wedi trefnu rhaglen am y tymor hwn ac yn edrych ymlaen at gwmni Bethan Picton Davies yr Is-Lywydd Cenedlaethol. Rydym yn cwrdd yn festri Capel Ramoth yng Nghwmfelin Mynach prynhawn dydd Iau, 28ain Medi am 1.30yp.
Croeso cynnes i aelodau newydd ac i ddysgwyr.

### Cangen Beca

Prynhawn Iau, Hydref 12fed bydd Cangen Beca yn dathlu penblwydd y gangen yn 50 oed. Byddwn yn cyfarfod yng Nhaffi Beca am 1 o'r gloch. Bydd cinio tri cwrs yn cael ei baratoi, gyda te neu goffi i ddilyn am bris o £29. Bydd gofyn i ni ddewis y prif gwrs ymlaen llaw a bydd yna ddewis o gig eidion, neu eog.

Mae croeso i gyn aelodau a ffrindiau y mudiad i ymuno â ni yn y dathlu. Os oes rhywun eisiau ymuno â ni yn yr hwyl, a fyddech gystal a chysylltu ag Angharad Booth Taylor (01994 419221), neu gyda Eilir Davies (01994 419649).


---

## WALDO
## DARLITH FLYNYDDOL 2023

Cynhelir Darlith Flynyddol Cymdeithas Waldo 2023 yn ystafell Y Drwm, y Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth, ddydd Gwener, Medi 29ain.

Y darlithydd gwadd fydd y Parch John Gwilym Jones a'i destun fydd 'Plentyn y ddaear'. Adwaenir John Gwilym fel un o dri brawd Parc Nest a fentrodd i'r weinidogaeth ac sydd wedi ennill prif gystadlaethau llenyddol yr Eisteddfod Genedlaethol. Cynigir lluniaeth cyn y ddarlith fydd yn cychwyn am 4.15pm.

Bydd y ddarlith yn cael ei darlledu'n fyw ar zoom yn y ddwy iaith. Wedi'r ddarlith lansir llyfr yn cynnwys y mwyafrif o'r darlithiau blynyddol gan gynnwys y ddarlith eleni. Fe fydd Emyr Llewelyn, un o Lywyddion Anrhydeddus Cymdeithas Waldo, yn cyflwyno'r gyfrol. Trannoeth cynhelir Taith Gerdded Waldo o Festri Bethel i Garreg Waldo ac yn ol gan Fenter Iaith Sir Benfro. Cyfarfod am 10 o'r gloch.




Preselistorage cyf.
Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159
GORSAF BETROL PRESELI CYF.
Llanddewi Efelffre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd
Olew dros Gymru Oil4Wales
LONDIS
01834 860227

R. M. JONES
CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD
Bridge End House
Clunderwen
Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com


LLAWN CARIAD
Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon
Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk

## Canolfan Ffynnonwen - mwy o luniau'r dathlu









### *Lawnsio ymgyrch codi Cerflun Twm Carnabwth*
### *parhad o dudalen 1*

Roedd oddeutu £2,000 wedi'u codi cyn lansiad swyddogol yr ymgyrch. Ar yr union ddyddiad yn 1839 y chwalwyd yr iet am y trydydd tro a'r tro diwethaf. Gwaredwyd symbol o orthrwm a chychwynnwyd ar ymgyrch o sicrhau cyfiawnder cymdeithasol. Yn Efail-wen y dechreuodd y cyfan.

Codwyd y swm sylweddol rhagblaen trwy gysylltu â nifer o gyrff cyhoeddus yn gynghorau cymuned, capeli a mudiadau diwylliannol yn y fro. Ymddengys fod tipyn o bawb am gyfrannu o sylweddoli pa mor arwyddocaol oedd y weithred a ysgogwyd gan Thomas Rees. Dyma ddyfarniad yr hanesydd, yr Athro Martin Johnes, o Brifysgol Abertawe, a fagwyd yn Hermon:
"Gorfodwyd Merched Becca i wneud yr hyn wnaethon nhw oherwydd dioddefaint ac roedden nhw'n barod i gymryd y cyfrifoldeb i ymladd dros fyd gwell. Fe ddyle hynny fod yn ysbrydoliaeth i ni. Ac i mi, bydd y cerflun o Twm Carnabwth ddim yn unig yn coffau'r dyn ei hun, ond yr hyn roedd e'n ei gynrychioli", meddai.
Erbyn hyn mae'r gronfa yn cripian tuag at y nod o godi'r £10,000 cychwynnol. O wneud hynny cyn diwedd y mis, gellir bwrw ati wedyn gyda'r trefniadau i gomisiynu cerflun gyda chymorth asiantaeth sy'n arbenigo yn y maes.

Diolch o galon am haelioni'r cymdeithasau a'r mudiade canlynol sydd wedi cyfrannu hyd yma :-
Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd, Papur Bro Y Cardi Bach a Papur Bro Clebran - £500 yr un;
Côr Corlan - £250;
Capel Calfaria Login a Hoelion Wyth Beca - £200 yr un;
Cwmni Teledu Tinopolis - £150;
Elw raffl ar fferm Rhos-fach, Efail-Wen - £130
Capel Ramoth Cwmfelin Mynach, Clychau Clochog, Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda, Canolfan Gymdeithasol Ffynnon-wen Login, Cyngor Cymuned Boncath, Capel Nebo Efail-wen, Capel Rhydwilym, Capel Hebron - £100 yr un.

Mae llawer mwy o unigolion eisoes wedi cyfrannu, fel gwelir ar y dudalen gofundme y gellir dod o hyd iddi ar dudalen ffesbwc Codi Cerflun Twm Carnabwth. Mae nifer helaeth o addewidion ar eu ffordd hefyd ac erbyn hyn mae'r gronfa wedi cyrraedd £6,000. A wnawn ni gyrraedd y £10,000 cyn diwedd mis Medi? Fedrwch chi

CEFINVAUGHAN
Ffotograffiaeth / Photography
Ffotograffiaeth ar gyfer bob achlysur
Photography for all occasions
Cefin Vaughan
07788233327
cefinvaughan@hotmail.com
hapus i siarad Cymraeg!

GAREJ WYN CYF
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG
MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

TAF
AMSER AGOR
Llun - Gwener 7- 5.30
Sadwrn 7-12.00
MASNACHWYR ADEILADU
Iard yr Hen Orsaf
Heol yr Orsaf, San Clêr
Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772

gynorthwyo? Hyderwn byddwn llawer mwy o gymdeithasau, mudiadau, unigolion a busnesau yn cefnogi'r ymgyrch yn fuan iawn. Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth. Manylion y cyfrif banc y gellir talu iddo yn uniongyrchol yw 30 91 65 01036767 sef cyfrif Cymdeithas Cwm Cerwyn.




Priodol bod teulu Glynsaithmaen yn cymryd rhan gan fod yr holl drafod ymlaenllaw wedi digwydd yn y sgubor ar y clos.



*Lluniau: Chris Rees*

Thomas Bullin druan yn wynebu'r rebeliaid cyn iddo ffoi





Y ddau denor Teifryn a Trystan yn canu 'Iesu, difyrrwch f'enaid drud'



Disgyblion Beca, Brynconin a Maenclochog yn canu am 'Ysbryd Rebecca'



Rosemarie Davies, trysorydd Y Cardi Bach, yn cyflwyno siec o £500 i Eurfyl Lewis, trysorydd ymgyrch Codi Cerflun Twm Carnabwth.

Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE
Atgyweirio a M.O.T.
**Ffôn: 01994 230041**

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH, SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost:
enquiries@allpump.co.uk

Phil a Siôn Harries
SEIRI COED
Efail Fach
Henllan Amgoed
Ffôn:
01994 240857

## Gêm Goffa Gemma Harries – Hendy Gwyn v Nantgaredig (Awst 19eg 2023)

Dwi'n meddwl yn onest na allai'r diwrnod fod wedi mynd yn well - o'r dechrau i'r diwedd fe aeth yn wych. Dechreuon ni gyda bwffe cyn y gêm lle roedd gennym 190 o bobl yn bresennol. Wedi'i ddilyn gan 3 bws llawn i fynd â chefnogwyr i Barc Llwyn Ty Gwyn i wylio gêm gyffrous iawn o rygbi! Dechreuodd y gêm gyda chwaraewyr o'r ddau dîm yn sillafu allan 'G.H' er cof am Gemma Harries, wedi ei ddilyn gan munud o dawelwch.



Yna chwaraeodd y ddau dim y gêm gyfan gydag angerdd. Yn anffodus i Hendy-gwyn ar Daf, daeth Nantgaredig i'r brig gyda'r fuddugoliaeth. Y sgôr terfynol oedd Hendy-gwyn ar Daf 17 Nantgaredig 33. Byddai Gemma yn sicr yn hapus gyda'r canlyniad hwnnw! Parhaodd y diwrnod gydag adloniant yn Nghlwb Rygbi Hendy-gwyn a oedd yn cynnwys y raffl a'r ocsiwn. Diolch yn fawr iawn i Dafydd Pantrod, Ceulyn Davies, Clive Edwards a Gruff Wyn am gynnal noson wych a gafodd ei fwynhau gan bawb!




Hefyd, hoffwn ddiolch i bawb a fu'n rhan o'r digwyddiad drwy gydol y dydd ac am wneud i'r cyfan redeg mor esmwyth! Ar y cyfan, roedd y diwrnod yn llwyddiant ysgubol a diolch i'r holl gefnogwyr, noddwyr a rhoddwyr rydym wedi llwyddo i godi dros £33,000 a fydd yn cael ei rannu rhwng y ddwy elusen sef Ambiwlans Awyr Cymru a Plant Dewi – y cyfan er cof am Gemma Harries. *Joseff Edwards*




Joseff yn cyflwyno plac i mam Gemma

Hoffai'r Cardi Bach longyfarch Joseff a'r teulu ar godi swm anhygoel o arian tuag at y ddwy elusen, er cof am Gemma.

**Ken Davies a'i Fab**
*Cigyddion*
**Brynawelon**
**Crymych**
Ffôn: 01239 831978




### RISOLS FFOWLYN a THATWS

**Cynhwysion**
1 pwys o dato wedi eu pwtsho
6 owns o gig ffowlyn wedi ei goginio a'i dorri'n fân.
1 darn o facwn wedi ei goginio a'i dorri'n fân.
2 binsiad o deim
1/2 winwnsin wedi ei ratio.
Halen a phupur
1 wy wedi ei guro.
Briwsion bara i orchuddio'r risols.

**DULL**
1. Cymysgwch y ffowlyn a'r bacwn gyda'i gilydd ac ychwanegwch at y tato pwtsh.
2. Ychwanegwch y teim, wynwnsyn, halen a phupur.
3. Ychwanegwch hanner yr wy i glymu'r gymysgfa.
4. Ffurfiwch i siap teisennau bach fflat.
5. Ffriwch mewn saim (y ddwy ochr) nes eu bod yn felyn-frown.

Maent yn flasus yn dwym gyda salad gwyrdd neu lysiau.

# "Men's Shed"

Ydych chi wedi clywed am y cysyniad o "Men's Shed?" Mae nifer fawr o'r grwpiau yma wedi'u sefydlu yn ddiweddar gyda'r bwriad o fod o gymorth i **ddynion** yn enwedig yn nhermau llesiant ac iechyd meddwl. Mae'n rhoi cyfle i ddynion ddod at ei gilydd er mwyn rhannu profiadau a bob math a bod yn gynhaliaeth i'w gilydd. Nid dynion yw'r rhai gorau am siarad a rhannu gofidiau, ond mae cael cyfle i wneud hyn mewn awyrgylch anffurfiol a chyfeillgar yn fuddiol iawn.

Efallai nad ydych yn gwybod, ond mae yna Men's Shed i gael yn Sanclêr a phan awgrymwyd y syniad o sefydlu un yn y lle cyntaf, mae'n debyg mai'r gwragedd oedd y mwyaf cefnogol i'r syniad!

Yn naturiol mae pob Shed yn wahanol. Mae un Sanclêr yn cyfarfod yn Neuadd y Scowtiaid ar y foment neu mewn cartref preifat. Mae'r dynion sydd yn ei fynychu eisioes wedi elwa'n fawr yn bersonol wrth wneud hynny. Ond yn fwy na hynny, ma'r gymuned o gwmpas y dref wedi elwa'n rhyfeddol o'u harbenigedd mewn cymaint o feysydd wrth iddynt fynd ati i drwsio; glanhau a pheintio pethau. Ac mae'r gymuned leol yn hynod werthfawrogol o'u cyfraniad. Wrth siarad gyda hwy, rwy'n cael ar ddeall eu bod hwythau wedi elwa llawn cymaint wrth wneud y gwaith gan bod hynny wedi llwyddo iddynt adennill hunan-werth yn ogystal â chodi eu hunan hyder a delwedd.

Mae'r Men's Shed yn cael ei ariannu gan yr aelodau eu hunain yn ogystal â thrwy nawdd a chyfraniadau oddi wrth fusnesau lleol ac unigolion a'r gymuned. Caren nhw weld mwy o aelodau yn ymuno â'r grŵp ac mae croeso i unrhywun dros 18 mlwydd oed o ba bynnag gefndir. Ceir cyfle i sgwrsio, cael paned, siarad am faterion sydd yn eu poeni a'u profiadau gan adeiladu ar gyfeillgarwch newydd a chymdeithasol; lleihau unigrwydd, iselder a gor-bryder.

Mae eu gwaith yn amlwg o gwmpas y dref ac wedi ei rannu ar FB ac mae'n cael sylwadau positif a chefnogol dros ben sydd yn fodd ychwanegol i godi ymwybyddiaeth o'r grwp ond hefyd yn codi ei hunan ddelwedd wrth fod yn aelod o'r grwp a chyfrannu. Maent yn teimlo o werth wrth rannu a defnyddio'r sgiliau sydd ganddynt.

Pawb ar eu hennill felly.

Nawr, er mai The Men's Shed yw ei henw, yn anffodus does dim sied ganddynt yn Sancler! Maent yn awyddus dros ben i gael cartref ac unwaith ddigwyddith hynny, byddant yn medru mynd ati i drwsio pethau a helpu mwy o bobl.

Os gwyddoch am unrhyw sied addas, neu unrhyw fath o adeilad tu allan, cysylltwch gyda'i ysgrifennydd- philip@welsh-holly.co.uk







Mae'n bwysig iddynt gael parhau gyda'r gwaith cymunedol arbennig yma a diolch iddynt am eu caredigrwydd a'u hymroddiad i wella'r gymuned leol er budd pawb.

*Annalyn*



# BLAENWAUN

Cyfarchion penblwydd i Irene Davies, Highlands sydd wedi dathlu ei phenblwydd yn 90 oed ar y 10fed o Fedi.

**Penblwydd arbennig**



Tegwen James yn torri'r gacen ar achlysur ei phenblwydd yn 90 oed ym mis Awst.

**Diolch**
Dymuna Tegwen James, Penybryn ddiolch o galon i bawb am eu cyfarchion caredig ar achlysur ei phenblwydd yn 90 oed.
Bu'n ddiwrnod arbennig iawn o ddathlu ac mae'n gwerthfawrogi pob ymweliad a phopeth a dderbyniodd yn fawr iawn. Diolch arbennig i'r teulu am drefnu'r cyfan a gwneud y diwrnod yn fythgofiadwy.

**Capel Moriah**
Diolch i'r Parchedig Gareth Ioan am ei wasanaeth ar Sul, 3ydd o Fedi. Thema yr oedfa oedd dathliad y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn 75 oed. Cafwyd oedfa fendithiol iawn a hyfryd oedd cyfarch Tegwen James ar ei phenblwydd arbennig.

**Sul Medi 17eg** bydd Elonwy Phillips yn gwasanaethu mewn cymun am 2 o'r gloch.
Cofiwch am daith gerdded Cymdeithas Capeli Bro Hywel dda ar **Sadwrn 16eg** am 10 o'r gloch. Dechrau a gorffen yn Llanboidy.

**Hydref 1af** Cynhelir Oedfa o Fawl yng Nghapel Nebo am 10.30. Bydd y Parchedig Gareth Ioan yn llywyddu a bydd yna gasgliad tuag at Tŷ Hafan.

**Hydref 22ain**: Cwrdd Diolchgarwch am 2 o'r gloch Annalyn Davies. Croeso cynnes i bawb.

# HENLLANFALLTEG

**Capel Henllan**
Trefn Suliau mis Hydref:
1af: Oedfa bregeth 2 o'r gloch Annalyn Davies
29ain: Oedfa bregeth a chymun - 10.30 y bore gan y Parch. Aled Gwyn.

Da iawn Lloyd



Lloyd Jackson a fu'n rhoi 'Bone Marrow Stem Cells' yn Ysbyty Felindre, Caerdydd yn ddiweddar. Ma angen mwy o bobl ifanc rhwng 17 a 30 oed i fynd ar y rhestr rhoi 'Bone Marrow' a thrwy hynny, gwneud gwahaniaeth.

**Ymddeoliad Hapus**
Dymuniadau gorau i Trefina Jones o Bancyfelin sydd wedi ymddeol. Dechreuodd fel Pennaeth yn ysgol Henllan Amgoed ar 1af Ionawr 1995 a bu yno nes i'r ysgol gau ym mis Gorffenaf 2004. Ymddeoliad hapus iawn iddi.

# CWMBACH

Dymuniadau gorau i Peter Robinson Waunllan sydd ar hyn o bryd yng Nghartref Garreglwyd San Cler ar ôl iddo dreulio peth amser yn ysbytai Llwynhelyg a Llanymddyfri.

Hefyd yr un dymuniadau i Owen Robinson ar ôl iddo fod yn yr ysbyty yng Nghaerdydd.

Cydymdeimlwn â theulu Fronfelin ar farwolaeth mam Cherry sef Mary Wood Cwmfelin. Bu'r angladd ym Mharc Gwyn yng ngofal y Parchedig Huw Geroge.

# MEIDRIM

**Henoed**
Croesawodd Meirion Morris ein siaradwraig wâdd, sef Indeg Jameson. Daeth hi i siarad am ei gwaith fel

**C J Waste cyf.**
Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com
Prisiau ardderchog
Gwagio tanciau septig / carthbyllau
Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr. SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.
SPAR
*Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy, Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar unrhyw achlysur.*
**Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.**
**Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.**
Ffôn: 01994 419230

G WILLIAMS
a'i FEIBION
Monumental Masons
SEIRI MEINI COFFA
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390

ffisiotherapydd gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Clysom ganddi sut oedd byw bywyd iach heb lawer o ddolur na phoen !! Dangosodd ychydig o ymarferion syml i ni sut i wneud hyn, cawsom brynhawn buddiol a diddorol iawn. Diolchodd Meirion Morris iddi.

Bydd ein cyfarfod nesaf yn Neuadd Ieuenctid Meidrim ar Hydref 3ydd pan fydd plant ysgol Meidrim yn ein diddanu.
Wrth y te - Morfydd Davies, Hilda Masón, Sally James, Glyn Harbour.
Yn rhoi raffl - Jean Howell, Meirion Morris, Eirwen Davies, Lynda Newton.

# LLANGLYDWEN

**Te Cynhaeaf**



Cynhaliwyd Te Cynhaeaf, er budd Eglwys Llanglydwen, yn sied ddefaid Maesyfelin, Hebron ar brynhawn Sul, Gorffennaf 16eg.
Roedd yn bleser cael Côr Meibion Hendy Gwyn ar Daf yn canu yno ac roedd y gynulleidfa niferus ddaeth ynghyd, wrth eu bodd yn gwrando arnynt.

Yn dilyn yr adloniant, bu pawb yn mwynhau te cynhaeaf blasus iawn ac roedd yn hyfryd i gymdeithasu ymysg ein gilydd. Diolch o galon i bawb fu'n cynorthwyo mewn unrhyw fodd, diolch hefyd i bawb am y cyfraniadau ariannol – gwerthfawrogir y cyfan yn fawr iawn.

**Cydymdeimlo**.
Cydymdeimlwn â Vickey Ashley a'r teulu yn y Mill ar farwolaeth ei llystad yn ddiweddar.
.... hefyd â Haydn Evans a Sue ar farwolaeth brawd Haydn sef Hefin Evans y Fron ar ddechrau Medi.

## *Priodas Dda*



Pob dymuniad da i Ifan Lewis, Lluest gynt, a Sioned Toft ar eu priodas ar ddiwedd Awst. Priodwyd y ddau yng Nghapel Blaenwaun Llandudoch a cafwyd y wledd a'r parti i ddilyn yng Nglanfa Teifi, Llandudoch.

# CWMFEIN MYNACH

**Ramoth**
Ar Sul, Medi 3ydd cafwyd gwasanaeth Cymundeb dan ofal Y Parchg. Ken Thomas, Maenclochog.
Ar Sul, Medi 10fed bu'r Parchg. Huw George yn cynnal oedfa yn y prynhawn.
Diolch iddynt.
Hydref
1: Oedfa Gymundeb - Mr. Hefin Wyn -2.00
8: Oedfa dan ofal Y Parchg. Huw George - 2.00
15: Cymanfa Ganu yn y Tabernacl, Maenclochog - 10.30

Dymuniadau gorau i Merle Jones sydd yn derbyn triniaeth ar hyn o bryd. Rydym i gyd yn meddwl amdani.

Cydymdeimlwn a Mrs Meirwen Evans, Fron Uchaf ar farwolaeth ei mab, Hefin yn 52 oed ; hefyd a'i frodyr a'r teulu i gyd.

....hefyd â Dewi a Sioned Snelson a'r bechgyn ar farwolaeth sydyn mam Dewi, sef Mrs Jois Snelson, Dinbych.

Cydymdeimlwn yn fawr â David Wood a'r teulu i gyd ar farwolaeth ei briod, Mary. Bu Mary farw yn Ysbyty Caerdydd ar ôl syrthio yn ei chartref. Roedd yn berson hawddgar ac yn hoff iawn o dyfu blodau. Bu'r angladd ym Mharc Gwyn ar ddydd Mercher, Medi 7fed o dan wasanaeth Y Parchg Huw George.

**Diolch**
Dymuna Iori a Ceri Saer ddiolch yn fawr am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu Priodas Aur ac am y parti gwych a drefnwyd gan y teulu. Diolch hefyd am gael defnyddio festri Ramoth Cwmfelin oherwydd y tywydd gwael ar y dydd. Diolch yn fawr i bawb.

RHYDWYN DAVIES
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos, Boncath. SA37 0HZ
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
*Anrhegion Cyfoes Cymraeg*
*Llyfrau Cymraeg*
*CD's*
*Cardiau Cyfarch*
*a llawer mwy*
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL

Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP

# BANCYFELIN

**Ymwelwyr o Gapel Tabernacl, Aberaeron**



Hyfrydwch oedd croesawu llond bws o aelodau'r Tabernacl, Aberaeron a'u cyfeillion atom i'r oedfa ar bnawn Sul, 23ain o Orffennaf fel rhan o'u pererindod. Cawsom oedfa fendithiol a phaned a chacen blasus wedi'r oedfa cyn i'r pererinion fynd ymlaen ar eu taith.

**Wal Capel Bancyfelin**



Bu tri o fechgyn Capel Bancyfelin - Lyn, Delme a Robert - yn brysur iawn dros yr haf yn tynnu'r plaster oddi ar wal y fynwent ac ail bwyntio'r cerrig hyfryd a ddatgelwyd o dan y plaster. Mae'r wal gerrig wedi dod yn destun siarad yn y pentref a safon y gwaith gan y bechgyn yn arbennig! Diolch yn fawr iawn iddynt.

**Gibeon**

Cafwyd dwy oedfa fendithiol yng Ngibeon dros yr haf. Gwasanaethwyd gan y Parch. John Gwilym Jones ar Orffennaf 23ain a'r gweinidog, y Parch. Rhodri Glyn Thomas ar Awst 20fed. Cyfeiliwyd yn y ddwy oedfa gan Hilary.

Llongyfarchiadau i Catrin (James) a Heilin Evans ar eu priodas yng Ngibeon ar Fedi 2ail. Roedd yr haul yn gwenu a chafwyd gwasanaeth hyfryd dan ofal Annalyn. Cyfeiliwyd ar y delyn gan Marged Rees ac wrth yr organ gan Hilary. Dymunwn yn dda i'r pâr ifanc.

Llongyfarchiadau i Catrin, hefyd, ar ennill ei gradd yn nyrsio. Mae hi bellach yn Staff Nurse yn Ysbyty Glangwili.

# SAN CLER

***Llongyfarchiadau***



Llongyfarchiadau i Lleu Pryce, Bryncaerau, Sanclêr ar raddio o Brifysgol Bangor ym maes Newyddiaduraeth ac Astudiaethau'r Cyfryngau. Yn ystod yr un seremoni raddio ganol yr haf, derbyniodd Dafydd Iwan radd er anrhydedd, felly roedd yn rhaid manteisio a gofyn am lun !

Mae sawl un wedi dathlu penblwydd arbennig dros yr haf. Dathlodd Peter Crowdie ei benblwydd yn 80 oed ar Orffennaf 17eg a'r efeilliaid Wyndham a Wynford Phillips hefyd eu penblwydd yn 80 oed ym mis Gorffennaf. Roedd Rose Davies, (Gothic gynt) yn 90 oed ar ddechrau mis Awst a Janette Jenkins yn 60 oed ar Awst 13eg. Ar Awst 31ain roedd Heulwen Nash yn dathlu ei phenblwydd yn 80 oed.Gobeithio iddyn nhw i gyd fwynhau'r dathlu.

Dymunwn briodas dda i Delyn (Page) a Karl Morris ar eu priodas yng Nghapel Gelliwen ym mis Mehefin.

Bu farw Margaret Sutherland ar Orffennaf 13eg yn 73 oed. Fe'i magwyd yn Crud y Wawr, San Cler a threuliodd ei bywyd yn gweithio yn Saudi Arabia cyn ymddeol gyda'i gwr i Rhandir, San Cler. Cynhaliwyd ei hangladd yn Eglwys Mair Magdalen, San Cler, lle'r oedd yn weithgar. Cydymdeimlwn â'i mab Matthew a'i wraig, Jennifer ynghyd â'i ŵyr, Isaac. Hefyd â brawd Margaret, sef Huw Thomas, Caerdydd.









Dymunwn yn dda i Gwion Davies, Lôn Hafren, sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn dilyn damwain ar ei feic. Da yw deall ei fod adre ac ar wellhad.

# PWLL TRAP

Llongyfarchiadau i Liz Mackay, Llyswen, ar ennill cymeradwyaeth uchel yn y gwobrau VTCT mewn Harddwch, a hynny dros Brydain gyfan.

Cafodd Daniel O'Callaghan dipyn o lwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan gan ennill yr 2il wobr yn llefaru darn o'r Ysgrythur, 3ydd gwobr ar yr unawd chwythbrennau a chael llwyfan yng ngwobr Llwyd o'r Bryn. Llongyfarchiadau mawr iddo.

Cydymdeimlwn â Dwyfor Morgan a'r teulu ar farwolaeth Derek, brawd Dwyfor.

Bu farw hen-fodryb Sharon Griffiths, Maes yr Haf, sef Gwen Thomas o Bort Talbot yn 104 oed. Roedd hi yn enedigol o Bwll Trap. Cydymdeimlwn â Sharon, ei mam, Eileen, a'r teulu.

Cydymdeimlwn, hefyd â Margaret Bowen, Clos Nathaniel ar farwolaeth ei brawd-yng-nghyfraith, ei chwaer-yng-nghyfraith a'i chyfnither.

Cydymdeimlwn â Phyllis Hughes ac Edmund Jenkins, Lôn Wen ar farwolaeth eu nai, Hefin Evans o Lanboidy.

Mae John Evans, Crud y Wawr, Rhonna Thomas-Phillips, Maes yr awel, Eileen Jones, Delfan a Natalie Evans, Maesyronnen, ill pedwar wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty dros yr haf a da yw deall eu bod i gyd ar wellhad.

Da yw clywed hefyd fod Huw Nicholas, Deilen Wen adre ac yn gwella yn dilyn llaw-driniaeth fawr arall.

Bu Joan Evans, Glen View yn yr ysbyty yn dilyn cwymp a da yw deall ei bod hi hefyd ar wellhad.

**Bethlehem Newydd**
Braf oedd cael croesawu ffrindiau o Eglwys y Tabernacl, Hendygwyn, atom i'r oedfa ar Orffennaf 16eg. Yn dilyn paned a chyfle i weld yr arddangosfa cafwyd oedfa hyfryd yng ngofal yr aelodau. I ddilyn, mwynhawyd cinio blasus a chyfle i gymdeithasu yn Yr Hen Ysgol. Diolch i'r gweinidog, Marian ac Annalyn am wneud y trefniadau ac i Dai Rees wrth yr organ.

Llongyfarchiadau i Gerwyn Griffiths, Blaencors, ar enedigaeth gor-wyres, Efa.

Ganwyd merch fach hefyd i Nia, merch Sian (Sgubor Fawr) a'i gŵr. Llongyfarchiadau iddynt hwythau.

Llongyfarchiadau i Howard a Christine Bevan, Tafarnspeit ar ddod yn famgu a thadcu i ddau fach. Ganed Noah Lloyd i Stephen a Lowri. Mae Noah yn frawd i Oliver a Rory. Hefyd, ganwyd Gwenllian Mair i Sarah a Dan. Mae Gwenllian yn chwaer i Gruff. Dymuniadau gorau i bawb.

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth John Phillips, Croeso, (Sgubor Fawr gynt) yn 88 oed. Yn blentyn, roedd yn byw yn Rose Brook cyn symud i Ysgubor Fawr lle treuliodd ei oes yn ffermio cyn ymddeol a symud i Croeso. Bu yn aelod ffyddlon a gweithgar ym Methlehem Newydd, yn ddiacon a thrysorydd am 27 mlynedd ac yn aelod o bwyllgorau amrywiol y capel megis y Pwyllgor Adeiladu a'r Pwyllgor Cyllid. Roedd hefyd yn aelod o Gwmni Drama'r capel, yn dal swydd ac yn un o'r cast. Roedd bob amser yn barod ei gymwynas a'i gyngor, yn ddoeth ac yn bendant. Gedy fwlch mawr ar ei ôl ym Methlehem Newydd a diolchwn am ei wasanaeth. Cynhaliwyd yr angladd ym Methlehem Newydd ar Awst 24ain dan ofal ei weinidog y Parch. Rhodri Glyn Thomas. Cydymdeimlwn â'i wraig, Megan, ei blant Sian a Gareth, ei wyrion a'i or-wyres yn eu hiraeth a'u galar.

Cydymdeimlwn yn fawr â Mark a Rhian White a'r teulu ar farwolaeth tad Mark, sef Roy White yn Chesterfield.

Er cof annwyl am Huw Davies, Lluest a fyddai'n 90 oed ar Fedi 24ain - gŵr, tad, tad yng nghyfraith, tadcu a hen dadcu arbennig iawn - a ffrind i bawb.

**Tŷ Croeso**
Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu nwyddau hylendid i'r Lloches yng Nghaerfyrddin. Diolch, eto, i Pethau Olyv am dderbyn y nwyddau.

**Cyfraniadau**

| | |
|---|---|
| Sally Davies, Pwlltrap | £20 |
| Teulu Nantycyw, Trelech | £20 |
| Tegwen James, Blaenwaun | £10 |
| Gwynlais a Mary Phillips, Merlais | £10 |

*Diolch yn fawr*

Rosemarie Davies
Cyfrifydd Technegol
Treth Ar Werth
Cadw Cyfrifon
Cyflogau
Hunan Asesiad
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians

Delwedd
07814 543634
*Salon Harddwch a Chyflenwol*
Crymych
Triniaeth o safon mewn
awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*

Ffôn: 01994 230474

# Llwyddiant ym myd y ddawns



Fy enw i yw Charlotte, a dyma fi, fy nith Amelia a'n hathrawes Dawns, Pam Hopkins. Rydym yn ddawnswyr Neuadd (Ballroom) a Lladin. Mae dawnsio yn angerdd pur i mi. Rydw i bob amser yn gwrando ar gerddoriaeth – o gwmpas y gegin ac wrth symud o gwmpas y llwybrau prynu yn y siopau, ac rwy'n mwynhau bob munud. Rydw i wedi trosglwyddo'r angerdd hwn i Amelia. Byddwn yn ei gweld yn dawnsio o gwmpas, bob amser yn ymarfer ei symudiadau.

Mae Dawnsio Neuadd a Dawnsio Lladin yn sgiliau anhygoel sy'n dod â phobl at ei gilydd. Yn ein teulu "Ultimate Ballroom" croesawn pawb sydd eisiau dysgu. Rydw i yn hoff iawn o gynorthwyo fy athrawes ddawns i ddysgu y rhai yna sydd yn dechrau ar y llwybr dawns, ac i rannu fy angerdd, gyda'r gobaith y byddant hwy yn ei garu hefyd.

Ers i mi ysgrifennu y tro diwethaf, mae cyrhaeddiadau gyda "Ultimate Ballroom Family" wedi bod yn amrywio, yn gyfres lan a lawr gyda nifer o heriau anhygoel. Rydym wedi bod yn Blackpool i gystadlu yn rowndiau terfynol yr ISTD, ac wedi derbyn canlyniadau gwych. Cefais i fy ngalw nôl i'r rownd cyn-derfynol, a chyraeddodd Amelia ddau rownd chwarter terfynol a chafodd trydydd safle mewn rownd derfynol Dawnsio Neuadd ac hefyd un Dawnsio Lladin.

Cawsom hefyd gyfle i gystadlu yn y gystadleuaeth "Spectacular Ballroom and Latin" a gynhaliwyd yn Abertawe eleni. Roedd y gystadleuaeth yn tynnu dawnswyr Neuadd, amatur neu broffesiynol, a Lladin, ac o bendraw'r byd. Roedd yn brofiad a chyrhaeddiad anhygoel. Ynghyd a'n athrawes dawns, Pam Hopkins, cyrhaeddais y drydedd safle yn rownd derfynol yr ISDT, canlyniadau gwych. Cefais i fy ngalw nôl i'r rownd gyn-derfynol a cafodd Amelia ei galw yn ol i ddau chwarter. Cafodd y drydedd safle yn ffeinal y Dawnsio Neuadd a hefyd y Dawnsio Lladin.

Cefais i'r drydedd wobr yn y dawnsiau gorffen gan gyrraedd pencampwr y wobr gyntaf yn y Paso Doble. Daeth Amelia yn bencampwraig cyntaf mewn 5 dawns unigol. Gyda brwdfrydedd a chefnogaeth ein athrawes, rydym yn dechrau ymarfer ar gyfer ein haroliadau nesaf. Mae Amelia yn gweithio ar ei haroliadau lefel Arian ac mi rydw innau yn gweithio ar yr arholiadau lefel Uwch.

Rydym wedi eistedd yr arholiadau yn stiwdio'r "Ultimate Ballroom" yn Dryslwyn, ac wedi profi llwyddiant. Mae Amelia wedi pasio'r rhan gyntaf o'r lefel arian gyda marciau gwych, ac mi rydw i wedi gorffen y Seren Aur gydag anrhydedd.

Rydw i bellach wedi gorffen yr arholiadau lefel Aur i gyd, ac yn mentro ymhellach i'r sialensiau lefel uwch. Rydw i bellach yn symud i mewn i ddawnsio lefel Uwch.

Mae Dawnsio Neuadd a Dawnsio Lladin yn dod â phleser mawr i mi gan roddi gwên ar fy ngwyneb. Rydw i yn hoff iawn o rannu fy angerdd a byddwn yn annog pawb i roi cynnig i ddawnsio.

# GLANDWR



Mae trydydd aelod eleni o Capel Glandwr wedi dathlu ei phenblwydd yn 90 oed yn ystod mis Medi sef Mrs Irene Davies Highlands ond sy nawr yng Ngartref preswyl Plasydderwen-Caerfyrddin.
Roedd Irene a'i diweddar ŵr Derek yn aelodau ffyddlon iawn i'r achos yng Nglandwr. Penblwydd hapus a dymuniadau gorau.



the LONDON HOUSE butchery
Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN
**01994 240705 / 240055**
*Galwch mewn am y dewis gorau*
Dilynwch ni ar Facebook

GBA
GERALD BLAIN
CYMDEITHION CYF
Ymgynghorwyr Cynllunio a Phensaerniol
15 Stryd St Ioan, Hendygwyn, Sir Gaerfyrddin, SA34 0AN
01994 240 366
gerald@geraldblainassociates.co.uk
geraldblainassociates.com
@GBAssociates1

RUSSELL THOMAS
GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR

Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

# TRELECH

Llongyfarchiadau mawr i Denzil Elias, Caerwenog, sydd wedi dathlu penblwydd arbennig yn ystod yr haf.

….hefyd i Elinos Evans, Clunblewog sydd yn dathlu ei phenblwydd yn 40 y mis hwn.

Cydymdeimlwn â Brian James, Esgairlydan sydd wedi colli ei chwaer, Aeres o Hermon yn sydyn yn ddiweddar.

….hefyd â theulu y diweddar Novella Walters, Nant y Cyw bu farw yn ddisymwyth yn Ysbyty Glangwili. Cofiwn am Islwyn a'r teulu i gyd.

….hefyd â Mair James, Godre Dewi ar farwolaeth ei thad Glyn yn ddiweddar. Bu mewn cartref yn Llanymddyfri am gyfnod.

Pob lwc i Chris ac Eleri Rees sydd wedi prynu Tafarn Beca yn y pentref. Gobeithio bydd y fenter yn llwyddiannus iawn, a byddant yn cael cefnogaeth yr ardal.

Llongyfarchiadau i ieuenctid yr ardal sydd wedi sefyll arholiadau allanol yn ddiweddar a phob dymuniad da i'r sawl sydd yn dechrau mewn colegau, prentisiaeth neu waith y mis hwn.

Pob dymuniad da i aelodau Aelwyd Hafodwenog sydd yn mynd i Gwpan Rygbi'r Byd yn Ffrainc i ganu yn ystod y twrnamaint.

Cofiwch am gyngerdd Côr Seingar sydd yn cael ei gynnal yn Nhafarn Beca ar nos Wener y 29ain o fis Medi. Dewch yn llu!

**Capel y Graig**

Ar ddydd Sul, 16eg o Orffennaf, cafwyd cyfle gan yr aelodau i weld cyflwyniad y Chwiorydd ar y thema `Dathliadau' ac wedyn aethpwyd i'r ganolfan i fwynhau lluniaeth ysgafn. Diolch i'r chwiorydd ac i bawb a fynychodd yr oedfa.

Ar Awst 3ydd, aeth trip yr Ysgol Sul eleni i Barc Deinosoriaid, Dinbych-y-Pysgod, a chyn mynd adre cafwyd swper blasus yn y `Savoy', Sancler. Diolch yn fawr i Meinir James ac Eleri Rees am drefnu ac i Alyson Harries am y loshin i'r plant.

Ar Fedi'r 3ydd, cynhaliwyd rihyrsal y Gymanfa yng Nghapel y Graig. Marged Harries ac Owain Jones fu'n cymryd at y rhannau arweiniol ar gyfer oedfa'r p'nawn gyda Elis Harries a Jean Lewis yn cymryd at y rhannau arweiniol yn oedfa'r hwyr â'r Parchg Gareth Ioan yn llywyddu. Arweinyddion y pnawn oedd Carol James ac Elen Davies, a'r hwyr Eirlys Phillips a Rhian Thomas. Cyfeilyddion y ddwy oedfa oedd Eirlys Phillips a Linda Thomas.

Ar Fedi'r 10fed cafwyd oedfa gymun hyfryd iawn gyda Karen Owen a Dafydd Evans yn cyd-wasanaethu ac Eirlys Phillips yn cyfeilio. Pleser oedd croesawu Karen Owen i Gapel y Graig am y tro cyntaf fel gweinidog dan hyfforddiant. Rydym yn dymuno pob bendith iddi yn yr ofalaeth a gobeithio y bydd hi'n hapus yn ein plith. Yn dilyn yr oedfa, cafwyd paned a chyfle i gymdeithasu yn y festri.



Croesawu Karen Owen i'r ofalaeth

Trist yw nodi marwolaeth tawel a sydyn Mrs Annie Novella Walters, Nantycyw, ar Awst 14eg. Cynhaliwyd yr angladd breifat yng Nghapel y Graig ar Awst 23ain. Cydymdeimlir yn ddiffuant gyda'i phriod Islwyn a'r plant Meinir, Emyr a Bethan a'u teuluoedd yn eu galar a'u hiraeth.

Penblwydd hapus iawn a dymuniadau gorau i Mrs Eileen Thomas, Llyshefin, Sancler, ar achlysur ei phenblwydd arbennig yn ddiweddar.

**Novella Walters**
**Diolch**. Dymuna Islwyn, Meinir, Emyr, Bethan a'u teuluoedd ddiolch yn fawr am bob arwydd o gydymdeimlad ac am y caredigrwydd a dderbyniwyd ganddynt yn ystod eu profedigaeth o golli gwraig, mam, mamgu a hen mamgu annwyl.

DH DAVID HARRIES & Co DH
CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street,
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors, Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.






# LLANBOIDY

**Sefydliad y Merched**

Cynhaliwyd cyfarfod mis Gorffennaf yn Neuadd y Farchnad o dan lywyddiaeth Denise Harris. Croesawodd y gwestai sef Peter Stock. Cafwyd cyflwyniad diddorol iawn ganddo am y Gerddi Botaneg Cenedlaethol yn Llanarthne, a diolchodd Denise iddo am noson hwylus. Yna bu'r llywydd yn llongyfarch yr aelodau a gafodd lwyddiant yn Sioe y Sir yn ddiweddar.

Ym mis Awst aeth yr aelodau i weithdy llwyau caru yn Kilgetty lle roedd hefyd arddangosfa o hen lwyau caru Cymreig, cyn cael bwyd yn Templeton.

**Eglwys Sant Brynach**

Teithiodd aelodau o Eglwys Sant Brynach i Ganolfan Hywel Dda yn Hen-dy-Gwyn er mwyn cael cyfle i ddiolch i Mrs Eve Edwards am ei gwasanaeth fel trysorydd yr eglwys am llawer o flynyddoedd. Dymunwyd yn dda iddi ar ôl gadael yr ardal cyn cyflwyno pot o flodau fel rhodd. Cyflwynwyd pot o flodau hefyd i Merle Evans am gynorthwyo a chanu'r organ yn yr eglwys. Bu pawb yn mwynhau te blasus wedi ei baratoi gan Christine Richards.

## *Priodas Dda*



Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Lowri Heseltine a Joseph Masters, Commercial House ar eu priodas yn Eglwys Llandybie ar Awst 26ain.

**Ysbyty**

Bu Dorian Phillips yn yr ysbyty yn ddiweddar ac mae bellach adref, dymunwn adferiad llwyr iddo.

**Dyweddio**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Sara Davies, Llain, Llanboidy a Tom Windsor, Fferm Forest, Hendygwyn ar eu dyweddiad yn ddiweddar.

## Penblwydd Hapus yn 90 oed



Llongyfarchiadau i William Davies, Stag, Llanboidy a fu yn dathlu ei benblwydd yn 90 ar ddiwedd Gorffennaf. Pob dymuniad da wrth pawb yng Nghapel y Trinity ac wrth pawb ym mhentref Llanboidy.

Dyma benillion a ysgrifennwyd ar gyfer yr achlysur

Mae bwrlwm yn Llanboidy
A lot o fynd a dod,
Gyda ford yn llawn danteithion
Y Stag yw'r lle i fod.

Mae heddiw'n ddiwrnod dathlu
Penblwydd arbennig iawn,
Baneri sydd yn hedfan
A'r tŷ a'r ardd yn llawn.

Cans heddiw yw y diwrnod
Mae Wil yn naw deg o'd,
Y straeon fydd yn llifo
A joio fydd y nôd.

R'ôl diwrnod mawr o sgwrsio
A bolie pawb yn llawn,
Y cardiau'n llenwi'r silffoedd
Atgofion melys iawn.

**Diolch**

Dyma neges oddi wrth William John Davies, Stag, Llanboidy yn dilyn ei benblwydd yn 90 yn ddiweddar -

*Hoffwn ddiolch i'r teulu a ffrindiau am y llu o gardiau ac anrhegion a dderbyniais ar achlysur fy mhenblwydd yn 90 oed. Penderfynais gyflwyno'r rhoddion ariannol i Feddygfa Tâf. Diolch o galon i chi gyd.*

SPAR
Jerry Williams a'i Feibion
GROSER a SWYDDFA BOST
CLOTH HALL
LLANBOIDY
Ffôn: 01994 448364 / 448221

ORW LTD
TRADING AS:
DORIAN PHILLIPS
ADEILADWYR - BUILDING CONTRACTORS
Owain: 07879 495 653
Dorian: 07889 186 036
owain@dorianphillipsbuilders.co.uk
dorian@dorianphillipsbuilders.co.uk

dp MASNACHWYR ADEILADU
"Gwasanaethu ein cymuned ers 30 mlynedd"
LLANBOIDY 01994 448435
ARBERTH 01834 861118
dpbuildingsupplies.co.uk

# HENDYGWYN AR DAF

**Tabernacl**

Pob mis Medi byddwn yn mynd 'back to normal' ac fel yna mae wedi bod eleni eto. Rydym wedi ail-ddechrau addoli gyda'r patrwm arferol o oedfa bob Sul.

Hefyd mae Clwb Hwyl y Tabernacl wedi ail-ddechrau yn Festri'r Tabernacl bob prynhawn Gwener am 3.30. Bu'r Clwb yn llwyddiant mawr cyn yr haf gyda hyd at 17 o blant yn bresennol a chroeso mawr i unrhyw blant i ymuno gyda ni'r tymor yma eto.

Nol yn yr haf fe wnaethom ymuno gyda Bethlehem Newydd a Gibeon ar gyfer oedfa ym Methlehem Newydd, Pwlltrap. Arweiniwyd yr oedfa gan y Parchg. Rhodri Glyn Thomas a chafwyd anerchiad gan Annalyn Davies ar gynlluniau newydd cyffrous y capel. Ar ôl yr oedfa cafwyd cyfle i gymdeithasu dros ginio dydd Sul hyfryd yn yr 'Old Board School'.



Cyd-addoli ym Methlehem Newydd, Pwlltrap




Mae yna arwydd newydd hardd tu fas i Fynwent Soar erbyn hyn a diolch i George Bancroft am drefnu ac ariannu'r arwydd.



Diolch hefyd i Menna Parry am gyflwyno siec o dros £200 i'r capel er cof am ei diweddar ŵr, Myrddin Parry.

Cafwyd un o uchafbwyntiau'r flwyddyn ar ddiwedd Gorffennaf pan ddaeth 75 o bobl i'r capel i wrando ar Ifan Gruffydd, Tregaron yn annerch ar y testun 'Cristnogaeth a Fi'. Ar ol sôn am ei brofiad ei hunan, cafwyd cyfle i holi sawl cwestiwn iddo cyn i bawb fwynhau paned a chacennau yn y festri.



Pob mis Medi bydd yna blant yn newid ysgol, yn mynd i'r coleg ac yn dechrau swyddi newydd. Llongyfarchiadau i bawb a wnaeth lwyddo yn eu arholiadau yr haf yma ac i'r rhai wnaeth raddio y misoedd diwethaf yma.. A phob dymuniad da i'r rhai fydd yn mynd i'r coleg neu yn dechrau gweithio mewn swyddi newydd.

Fel arfer mae croeso i unrhyw un alw mewn am sgwrs un i un yn y festri ar ddyddiau Mercher rhwng 12.00 a 14.00 os oes rhywbeth yn eu poeni. Mae'r gwahoddiad hyn i unrhyw un, nid aelodau yn unig, i alw mewn am sgwrs mewn awyrgylch ddiogel. Nid oes angen apwyntiad.

Bu nifer o bobl yn dathlu cerrig milltir pwysig yr wythnosau diwethaf yma.

AWEN TEIFI
Dewis da o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion, hefyd cardiau a theganau
Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

CENNYDD JAMES
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau
Gwasanaeth yn y Gymraeg!
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559
CANOLFAN REHAB CENTRE
therapi chwaraeon
clinigol
ar gyfer anafiadau sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gwaith
Apwyntiadau ar gael yn Crymych a San Cler

Llongyfarchiadau i Pam James ar ei phen-blwydd yn 80.

Hefyd llongyfarchiadau i Gareth a Jackie Phillips ar ddathlu 40 mlynedd o fywyd priodasol.

Llongyfarchiadau hefyd i Meirion a Carys James ar ddathlu 30 mlynedd o fywyd priodasol.

Ac yn olaf llongyfarchiadau i Rhodri a Siân- Medi ar enedigaeth eu plentyn cyntaf - Fflur Hâf Phillips.


Pam James yn 80


Gareth a Jackie Phillips


Meirion a Carys James



Fflur Haf Phillips

O edrych ymlaen mae gyda ni oedfa arbennig ar fore Sul, Hydref 29ain am 11.00 pan fydd Cristnogion o dde Corea sydd yn addoli gyda'i gilydd yng Nghaerdydd yn dod atom i gynnal oedfa. Fe fuont yn Berhlehem Newydd, Pwlltrap y llynedd ac roedd yr oedfa yn fythgofiadwy. Beth am ymuno gyda ni y diwrnod hwnnw? Neu ymuno gyda ni unrhyw Sul ? Bydd croeso mawr i chi.

## Cylch Meithrin Hywel Dda



Lluniau plant bach newydd ar eu diwrnod cyntaf yng Nghylch Meithrin Hywel Dda, croeso mawr i chi gyd.

### Enillwyr Clwb 200

Mis Gorffennaf

1af - £40 - Rhif 139 - Enfys Thomas
2ail - £20 - Rhif 79 - Gerallt Edwards
3ydd - £10 - Rhif 25 - Alison Howard

Mis Awst

1af - £40 - Rhif 78 - Angus Scourfield
2ail - £20 - Rhif 145 - Enfys Thomas
3ydd - £10 - Rhif 96 - Jane Thomas

Diolch i bawb sydd wedi prynu rhif, rydyn ni'n gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr iawn.

### Hoelion 8 - Cangen Hendygwyn

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor yn Lolfa Clwb Rygbi Hendygwyn. Croesawodd y Cadeirydd, Claude James, pawb a oedd yn bresennol ar ôl seibiant yr haf a chafwyd munud o dawelwch i gofio'r aelodau a gollwyd yn ystod y flwyddyn a dymuno gwellhad i'r rhai nad oeddent yn bresennol oherwydd afiechyd.

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN


Canolfan atgyweirio ceir

Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb

**Dai James - Steven Owens**
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf
01994 240230 / 07972 725193

SIOP SIAN CRYMYCH

**Crefftau Cymreig**
***Gemwaith Rhiannon***
***Crisial Brenhinol Cymru***
***Crefftau Lleol***
***Cardiau, Casetiau, CD's, Llyfrau***
***Crymych, SA41 3QF***
***FFÔN: 01239 831230***


- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus
- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

Estynnwyd croeso cynnes i'r siaradwr gwadd (un o'r aelodau) sef Rhys Phillips o Pwlltrap ac hefyd ei briod Eryl. Bu'r ddau ar eu gwyliau yn Seland Newdd llynedd a dyna oedd testun anerchiad Rhys gyda lluniau ar sgrin yn cyfoethogi'r cyflwyniad.

Gadael Maes Awyr Heathrow ar y 3ydd o Dachwedd 2022 a chyrraedd Signapore, lle arhoswyd i dorri ar y daith. Fel y gwelwyd yn ôl y lluniau, roedd llawer i weld yn y wlad brydferth yma.

Ymlaen wedyn a chyrraedd Ynys y Gogledd yn Seland Newydd. Roedd y gwyliau cyfan wedi ei drefnu ymlaen llaw gyda bws yn eu cludo o un golygfa a mannau diddorol i'r llall. Roedd Rhys ac Eryl wedi mwynhau'r gwyliau yn fawr iawn ac yn edrych ymlaen i ymweld a'r wlad eto yn y dyfodol.
Diolchwyd iddynt ar ran yr aelodau, gan Glyn Evans.

Dosbarthwyd tocynnau raffl i'r aelodau, a fydd yn cael eu dynnu mewn cyngerdd i ddathlu'r Gymdeithas yn 50 oed, ar Dachwedd 27ain yn Neuadd Emlyn, Tanygroes gyda pharti Camddwr yn diddori.

# LLANGYNIN

**Priodas Dda**
Llongyfarchiadau i Dionne a Gordon Davies, Maesawelon, ar eu priodas yn ddiweddar. Priodwyd y ddau yng Nghaerfyrddin gyda'r brecwast yn dilyn ym Maesawelon. Pob dymuniad da i'r ddau ohonynt.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i bob un o blant a phobl ifanc y pentref ar eu llwyddiant yn yr arholiadau TGAU, UA a Lefel A eleni a phob dymuniad da iddynt wrth iddynt barhau â'u hastudiaethau yn yr ysgol neu'r coleg, neu wrth fentro i fyd gwaith.

**Gwellhad buan**
Rydym yn falch iawn o ddeall bod Marianne Phillips, Elm Lodge adre o'r ysbyty ac yn dymuno y bydd yn parhau i wella a chryfhau o ddydd i ddydd.

Dymunwn wellhad buan hefyd i Ken Harris, Gelli Aur, sydd wedi treulio amser yn yr ysbyty yn ystod yr haf, ond sydd wedi dychwelyd i'w gartref yn Llangynin erbyn hyn.

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Lia Howells, Brohedydd, ac i Roy Reynolds, Tymore, y ddau ohonynt wedi derbyn llawdriniaeth ar eu llygaid yn ystod misoedd yr haf.

**Pen-blwydd arbennig**
Llongyfarchiadau i Ifan Wyn Jones, Ger-y-Bryn, a oedd yn dathlu ei ben-blwydd yn 21 oed ar Orffennaf 30ain.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Howard a Jennifer Evans , Plasbach, a'r teulu ar farwolaeth brawd Howard, sef Hefin Evans, Fron, Llanboidy.
Cydymdeimlwn yn ddwys â Mark a Rhian White, Garnwen, yn eu profedigaeth o golli tad Mark yn ddiweddar, sef Roy White o Chesterfield. Cofiwn am y teulu i gyd yn eu galar a'u hiraeth.

**Diolch**
Dymuna Eifiona a'r teulu ddiolch o waelod calon am yr holl gardiau, blodau a'r holl roddion a dderbyniwyd yn ystod marwolaeth ei brawd Eifion. Casglwyd y swm o £1075 er cof amdano i Ymchwil Cancr Cymru.

# RHYDWILYM

Ni fu gwasanaethau ym mis Awst, nac ar Sul cynta Medi. Byddwn yn cynnal Cyfarfod Diolchgarwch ar Nos Iau, Medi 14eg â'r Parch Huw George yn gwasanaethu, a gwasanaeth Cymun brynhawn Sul, Medi 17eg am 2.00 o'r gloch dan arweiniad Wyn Thomas.

Hydref 1af: 10.30 - Hefin Wyn.

Trist oedd clywed bod ein aelod hynaf wedi marw. Bu farw Mona Lewis ym mis Awst, ar ôl iddi gwympo, ryw fis cyn ei phenblwydd yn 90 oed. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i merched a'r teulu i gyd.

Mae Verina Thomas yn gwella ar ôl cael triniaeth ar ei llaw yn ddiweddar.
Bu Dennis Lewis gwympo a thorri asgwrn. Mae ynte yn ddigon poenus.
Mae Hafwen John yn dioddef gyda cefn tost iawn hefyd. Siom oedd iddi fethu a mynd i'r Eisteddfod. Dymuniadau da i bob un ohonynt, ac i unrhyw un sydd yn anhwylus ar hyn o bryd.

Elan a Lewys Roberts yw Prif Ferch a Prif Fachgen Ysgol Bro Preseli am y flwyddyn hon. Efeilliaid Anthea Roberts ydynt, ac wyrion i Russell a Ann Llewelyn Tŷ-Uchaf. Siwr bod y teulu i gyd yn falch ohonynt.

FFENESTRI
M.W.J
WINDOWS
FFENESTRI, DRYSAU, YSTAFELLOEDD GWYDR A GWTERI
PVC-U
TY GWYN, LLANDISSILIO, CLYNDERWEN
01437 563 806 07774 812587




WYN'S TYRES
BRECIAU ac EGSOSTS
Galwch i mewn am brisau cystadleuol a gwasanaeth heb ei ail
UNED 1
WEMBLEY GARAGE
SAN CLER
Ffôn: **(01994) 231599**

Llongyfarchiadau i Steffan a Rachel Jones ar enedigaeth merch fach yn ddiweddar.

Erbyn hyn mae Eluned Jones wedi cyrraedd Patagonia unwaith yn rhagor. Bydd yn aros yno hyd at fis Mawrth. Mae yn siwr o fod wrth ei bodd. Pob hwyl iddi hithe.

Dolch i bawb sydd wedi bod yn ddiwyd yn cadw y lle yn daclus yn ystod y gwyliau.

# Aelwyd Hafodwenog

Cafodd Côr y fraint o ganu yn ymyl Tîm Rygbi Cymru wrth iddyn nhw gamu ar y bws ym Mro Morgannwg a chychwyn ar eu taith i Gwpan Rygbi'r Byd yn Ffrainc. Wrth i'r Cardi Bach fynd i'r wasg, mae'r Aelwyd yn paratoi i deithio i Ffrainc er mwyn canu yno yn ystod dathliadau Cwpan y Byd.

Derbyniodd Aelwyd Hafodwenog y fraint gan fudiad yr Urdd yn sgil ei llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin fis Mehefin. Bydd adroddiad llawn o'r daith yn rhifyn nesaf Y Cardi Bach.

# PENYBONT

Cynhaliwyd oedfa arbennig ar nos Fawrth, Medi 5ed, yng Nghapel Pen-y-bont i groesawu Karen Owen i'n plith. Mi fydd Karen gyda ni yng ngofalaeth Capel y Graig Trelech, Capel Cendy a chapeli Bwlchnewydd, Ffynnonbedr, a Phen-y-bont am gyfnod o bedwar mis fel gweinidog dan hyfforddiant

Diolch i'r Parch Carwyn Siddall, y Parch Tom Evans a'r Parch Beti Wyn James am eu gwasanaeth yn ystod yr oedfa. Cyflwynwyd yr alwad i addoli gan Elinor Jameson, a Mrs Jean Lewis fu'n estyn croeso i Karen ar ran yr ofalaeth. Linda Davies fu'n canu'r organ ac addurnwyd y capel gan flodau o ardd Lily May, Pantshoni.

Paratowyd lluniaeth i bawb ar ôl y gwasanaeth yn y ganolfan ym Mhen-y-bont a diolch i Mair Jones a phawb fu'n trefnu a gweini. Hyfryd oedd cael y cyfle i gymdeithasu ar noson braf o hydref ar ôl oedfa mor fendithiol.



Yn y llun gweler ysgrifenyddion capeli'r ofalaeth, Llinos Jones, Handel Griffiths, Sylvia Thomas, Elinor Jameson a Jean Lewis, ynghyd â'r Parch Beti Wyn James, Parch Tom Evans, Karen Owen a'r Parch Carwyn Siddall.

## C Ff I Penybont

Ar ddechrau tymor newydd, fe gynhaliodd y clwb helfa drysor ar nos Lun 4ydd o Fedi. Bu buddugwyr y llynedd, Meinir Davies a Sue Butterfield wrthi'n trefnu. Daeth 15 car i frwydo i gyrraedd y brig, gyda'r noson yn dod i ben yn Nhafarn y Fox & Hounds, Bancyfelin. Llongyfarchiadau i deulu'r Bwthyn, Meidrim am ennill yr helfa.



Meinir Davies a Sue Butterfield



Teulu'r Bwthyn

# LLANDYSILIO

**Eisteddfod Boduan**



Llongyfarchiadau mawr i Sion Jenkins ar gael ei dderbyn yn aelod o'r Orsedd yn yr Eisteddfod eleni. Ei enw yn yr Orsedd yw Sion Silio.

….hefyd llongyfarchiadau mawr i Sioned Harries, Elm Cottage, Llandysilio, am ennill dwy o gystadlaethau yn yr Adran Theatr:
Trosi un o'r canlynol i'r Gymraeg: 'Rhinoceros' gan Eugene lonesco neu Mr. Burns gan Ann Washburn.
ac adolygiad o gynhyrchiad Theatrig Gymraeg

Llongyfarchiadau i unrhyw un arall ar ei llwyddiant yn yr Eisteddfod.

**Graddio ac arholiadau**

Llongyfarchiadau i Jess Morris, merch Andrew a Jenny Morris sydd wedi graddio fel Athrawes Ysgol Gynradd o Brifysgol Cymru Drindod Dewi Sant.
....hefyd llongyfarchiadau i unrhyw un arall sydd wedi graddio eleni.
Llongyfarchiadau i bawb ar ganlyniadau arholiadau TGAU a Lefel A.
....hefyd llongyfarchiadau i unrhyw un arall sydd wedi graddio eleni ac i bawb ar ganlyniadau TGAU a Lefel A.

**Bedydd**



Dyma Elsi a fedyddiwyd yn ddiweddar. Merch Sioned Dugmore a Rob, wyres fach Andrew ac Iris Dugmore o Landysilio a welir yn y llun.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau mawr i Nicholas a Rebecca Morgan ar enedigaeth mab bach. Ŵyr bach i Richard a Sandra Morgan, Cilau fach.

**Priodas Dda**



Llongyfarchiadau i Catrin Jones merch Mark a Diane Jones, Tŷ Gwyn a Tom Hodge mab Rob a Denise Hodge o Ludchurch. Priodwyd y ddau ar 28ain o Orffennaf yng Ngwesty Emlyn, Castell Newydd Emlyn. Pob dymuniad da wrth y ddau deulu.

**Penblwyddi**

Penblwydd hapus i Seren Lewis (merch Colin a Carina Lewis) ar ei phenblwydd yn 18 oed ar yr 2il o Awst .... hefyd penblwydd arbennig i Eilyr Thomas yn 80 oed ar 3ydd o Fedi.



Eilyr yng nghwmni rhai o'i chyn-ddisgyblion

**Llongyfarchiadau**



Llongyfarchiadau i Gemma Robinson am gymwyso ar gyfer Pencampwriaeth Dyn Cryf y byd.



….hefyd i Simon Hammersley a'r tîm ar ddod yn 3ydd yn y 36 Ras Brenhines or '72h de Pont-de-Vaux, Ffrainc. Ras 12 awr ar beiciau cwad.

**Iron Man**

Llongyfarchiadau i Colin Lewis, Rhys Mathias, Sam Harries ac Iwan Dugmore ar lwyddo yn yr Iron Man yn Ninbych y Pysgod a'r ardal ar 3ydd o Fedi, ac hefyd i unrhyw un arall a goncrodd y sialens fawr yma. Da iawn wir.

**Llongyfarchiadau**



Llongyfarchiadau mawr i Kara Jayne Hughes, Pwllcware ar raddio mewn Celf o Brifysgol Abertawe. Mae wedi derbyn swydd yn Adran Gelf Ysgol Harri Tudur, Penfro. Pob dymuniad da iddi.

# NEWYDDION BLAENCONIN



Mae Lleucu Lloyd, un o gyn-ddisgyblion yr Ysgol Sul yn gwneud enw iddi hunan ar y meysydd Athletau.

Mae Lleucu, sydd yn ferch i Dr Bethan a Huw Lloyd, yn arbenigo yng nghystadleuaeth Taflu'r Waywffon ac wedi ennill y Fedal Aur mewn cystadleuaeth yn ddiweddar drwy daflu'r waywffon 41.05m. Y gorau yng nghymru !

Mae ei brawd, William, yn athletwr profiadol hefyd … mae'n rhaid eu bod yn dilyn ei mam !

Llongyfarchiadau i Lleucu a dymuniadau gorau i'r dyfodol.

**PENBLWYDD RATIFA**

Ar y Sul olaf o Orffennaf, cafwyd dathliadau mawr ym Mhentref Ntwetwe yn Uganda wrth i Ratifa gyrraedd ei phen-blwydd yn ddeg mlwydd oed.
Mae'r aelodau wedi bod yn noddi Ratifa oddi ar y 14 Rhagfyr 2018 a hithau'n 5 mlwydd oed.

Mae Ratifa yn derbyn newyddion oddi wrthym yn gyson a ninnau'n derbyn adroddiadau am ei llwyddiant yn yr ysgol ac ati o fis i fis. Hyfryd yw meddwl ein bod ni ym Mlaenconin yn cynnig gobaith gwell i ferch ifanc yn Affrica.

Cofiwch am y Bore Coffi ar yr **ail** Sul o'r mis oherwydd mae'r hyn a gesglir o fis i fis yn ariannu'r nawdd mae Ratifa yn derbyn. Diolch i bawb am eu cyfraniadau.

Boed bendith ar Ratifa a'r gweithwyr hynny sy'n troi ein nawdd yn gymorth. Cofiwch gefnogi Ratifa ar yr ail Sul o'r mis gan fod ein cyfraniadau ariannol yn ei chynorthwyo i dderbyn addysg yn yr Ysgol leol.

Braint yw cael noddi a chefnogi Ratifa.




Mae Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Benfro yn cynnal Oedfa o Ddiolchgarwch yn flynyddol ac yn ymweld â'r 12 Clwb yn eu tro. Eleni, Clwb Ffermwyr Ifanc Clunderwen sy'n 'gartref' i'r Oedfa ac maent yn awyddus i gynnal y gwasanaeth ym Mlaenconin. dyddiad sydd ganddynt mewn golwg yw nos Sul, 15fed Hydref.

Bydd adroddiad llawn yn rhifyn Hydref o'r 'Cardi Bach'.

**Anturiaeth yr Arfordir**

Mae 'Anturiaeth yr Arfordir' yn parhau a'r Anturiaethwyr dewr wedi cerdded milltiroedd yn ystod yr haf.
O Nolton Haven aeth y criw ymlaen i Aber Madog a heibio i gartref y 'Teletubbies' a 'Charreg y Derwydd' (Druidstone) cyn cerdded ymlaen i Aber Llydan ac Aber Bach. Ychydig ddiwrnodau yn ddiweddarach, dyma'r Anturiaethwyr yn cerdded o Aber Bach i Strawberry Hill a Goultrop cyn disgyn i Hafan y Felin gan gofio'r Dixons. Wedi cerdded am filltiroedd, dyma Gastell Sant Ffraed yn dod i'r golwg.

Ar y nos Lun olaf o Fehefin, wele'r Anturiaethwyr yn dechrau'r daith o Sant Ffraed i gyfeiriad Martin's Haven gan gerdded heibio i Nab's Head a Phorth y Tŵr. Roedd Traeth Musselwick yn edrych yn fendigedig yn haul yr hwyrddydd. Diddorol iawn oedd yr enw 'Hopgang' cyn cyrraedd East Hook ac, yn y diwedd, pen y daith.

Roedd y gwynt yn rhuo wrth i'r Anturiaethwyr dewr adael Martin's Haven. Daethant ar draws nifer o enwau diddorol ...'Reion Slip', 'The Bench' a 'Raggle Rocks'. Roedd 'runway' DALE yn ein hatgoffa o bwysigrwydd yr ardal yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Tebyg oedd hanes Kete, ac yno, gwelwyd hen frics yn dwyn yr enw 'Goodwick'. Wedi cerdded heibio i 'Frenchman's Bay' a 'Welshman's Bay', hyfryd oedd gweld y Goleudy yn dod i'r golwg er, roedd enw'r ardal yn od ofnadwy 'Vomit Point'.
*Mwy o hanesion mis nesaf.*

## *Beirdd Blaenconin*

Tawel yw hi yng ngwlad y Beirdd ond diolch i 'Morus y Gwynt' am alw heibio gan adael yr awen yn yr awyr !

**Morus y Gwynt**

Daeth Morus y Gwynt i'r Pentref am dro,
nid sibrwd oedd yntau ond ysgwyd pob to.
Bu'n rhuo fel llew o godiad yr haul -
gorfodi pob perth i ddiosg eu dail.
Roedd cot ar y lein - yn lân ond yn wlyb ;
hedfanodd i ffwrdd fel hen seren wib.
A Morus y Gwynt, ie, fe gadd y bai
am chwythu y got un pnawn yn July.
Perchennog y got sy'n chwilio o hyd -

Gareth Glanville
SAER COED

Llwynpinner Fach
Hendygwyn ar Daf
SA34 0RA
Ffôn: 01994 240245
Symudol: 07779 112192
*Gwaith safonol - cysylltwch am bris*

SONIA'S
Siop Trin Gwallt
Llandysilio

Oriau Agor
Mercher: 5.30y.h - 9.00y.h.
Iau: 8.00y.b. - 3.00y.p.
Gwener: 9.00y.b. - 6.00y.h.
Sadwrn: 8.00y.b. - 2.00y.p.
Ffôn: 01437 563816

MASON BROS
GWASANAETH LLOGI PEIRIANNAU
CONTRACTWYR a MASNACHWYR
THE NORTON YARD,
LAMPETER VELFREY,
NARBERTH
Ffôn: 01834 831653 / 831553

pob gardd a phob perth, pob llwybr a stryd.
Bu'n chwilio pob dydd am wythnos a mis,
bu'n chwilio y coed - pob collen a llus.
Cot felen a glas ar lein a fu gynt
a chwythwyd i ffwrdd gan Morus y Gwynt.

**Anturiaeth yr Arfordir – 17**

Nos Lun Olaf mis Mehefin,
O Sant Ffraed ar ddechrau'r haf,
tri yn troedio tua'r llwybr
heibio'r Castell - tywydd braf.

Dilyn ffin y cerrig llwydion -
clywed cynnwrf yn y dŵr,
codi pac a mynd amdani
i Nab Head a Phorth y Tŵr.

Ynys Skomer ddaeth i'r golwg ,
creigiau geirwon gwelwyd draw,
Meirch y môr yn rhedeg heno,
Cae y Dwyrain sydd gerllaw.

Dilyn llwybr clir a chadarn
i ben graig a'r Clogwyn Ddu,
Musselwick yw'r draethell unig
wedi dringo, dringo fry.

Cyrraedd Hopgang - enw rhyfedd,
Beth yw'r ystyr, pwy a ŵyr,
Cerdded mlan heb oedi eiliad,
eisiau gorffen cyn yr hwyr.

Lawr a ni, ie, lawr i'r gwaelod,
cofio Einstein, genius pur,
'What goes up comes down',
medd yntau,
'What goes down, goes up' yw'r gwir.

Cyrchu, cyrchu tua'r diwedd,
cyrraedd East Hook ar y pen,
Yma cyrraedd Martin's Haven,
antur arall ddaeth i ben.

**Anturiaeth yr Arfordir – 18**

Dydd cyntaf mis Gorffennaf,
dydd Sadwrn, gyda llaw,
a'r Anturiaethwyr diwyd
yn ofni' r gwynt a'r glaw
gan adael Llandysilio
cyn wyth a dweud y gwir
gan gyrraedd Martin's Haven
a'r gwynt yn sgubo'r tir.

I Renney Slip yn gyntaf
ac yna'r Bench yn ail,
a'r tri yn byw mewn gobaith
o weld pelydrau'r haul.
Daeth Raggle Rocks i'r golwg,
Traeth Marloes oedd gerllaw
a'r tonnau'n taro'r tywod
a ninnau oll mewn braw.

Ymlaen a'r tri yn ffyddiog -
Tair Simnai - enw da,
Maes Awyr Dale yn adlais
o Ryfel, poen a phla.
Yr Hookses - enw rhyfedd,
a disgyn ar ein pen,
Gorllewin Dale yn agos -
ai dyma'r daith ar ben ?

Mae'r llwybr eto'n codi,
yn codi lan … a lan,
Gan fywyd Pererinion
i Benrhyn Santes Anne.
Y grisiau'n ddigyfaddawd,
a'r anal yn prinhau ;
yr haul yn dod o rywle
a'r poen yn ysgafnhau.

Goleudy ddaeth i'r golwg
a hynny mewn da bryd
i gyrchu'r Anturiaethwyr
i'r porthladd tawel, clyd.
Yn Kete, hen frics o Wdig,
yn Frenchman's Bay - y gwynt ;
y diwedd nawr mewn golwg
a'r camau braidd yng nghynt.

**TREFN OEDFAON**

Dydd Sul, 24ain Medi
**Rihyrsal y Gymanfa Ganu**
Tabernacl, Maenclochog - 10.30

Dydd Sul, 1af Hydref
Oedfa Bregeth - 10.30

Dydd Sul, 8fed Hydref
**Bore Coffi Ratifa - 10.00**
Oedfa Gymun - 10.30

Dydd Sul, 15fed Hydref
**Y Gymanfa Ganu**
Tabernacl, Maenclochog -am 1030

Arweinydd: Angharad Edwards

*************

Bwriedir cynnal **Cwrdd Eglwys** yn ystod yr wythnosau nesaf. Byddwn yn cyhoeddi'r dyddiad mewn da bryd.
Mae un o Swyddogion Undeb Bedyddwyr Cymru yn cyflwyno adroddiad.

# CLUNDERWEN

## *Priodas Dda*



Llongyfarchiadau mawr i Zoe Morris, merch Terry a Gail Morris ar ei phriodas i Paul Phillips. Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd iddynt yn eu bywyd priodasol.

**Dyweddio**
Llongyfarchiadau mawr i Christopher Davies (mab Andrew a Janet Davies, Ladds Clunderwen) a Jess Renolds ar eu dyweddiad. Dymuniadau da iddynt.

## Sioe Clunderwen

Dyna oedd Sioe arbennig! yr un gyntaf ers Covid, roedd neb yn gwybod beth i ddisgwyl. Roedd mor braf bod nôl a gweld beth oedd gan yr arddangoswyr i ddangos, a mwy pwysig, dal lan gyda ffrindiau o'r gymuned.

Hoffai Dan Roblin, Cadeirydd y Sioe wneud rhai diolchiadau.
Yn gyntaf diolch i Mark ac Eleri Williams am gael defnyddio'r cae eleni eto. Hefyd i bwyllgor y Neuadd am gael ei defnyddio. Mae llawer o waith ac amser yn mynd i roi'r sioe mlaen. Diolch i'n hysgrifenyddes Alison Ebsworth am yr holl drefniadau ar hyd y flwyddyn. Diolch i'r noddwyr, beirniaid, stiwardiaid, gwirfoddolwyr, aelodau'r pwyllgor a diolch i Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio am ddarparu lluniaeth iddynt. Diolch i bawb wnaeth helpu i baratoi'r sioe, hebddynt ni fyddai wedi bod mor llwyddiannus.
Diolch i lywyddion y dydd, Mr Richard a Mrs Sandra Morgan.
Diolch i bawb wnaeth helpu tu ôl y bar ac i Glwb Ffermwyr Ifanc Clun-

derwen am werthu roliau bacwn, brechdanau a.y.y.b. Cynhaliwyd rasus defaid am 6 yr hwyr. Cafwyd llawer o hwyl a diolch i bawb fu'n helpu gyda'r trefniadau. Gobeithio eich bod wedi mwynhau. Edrychwn ymlaen i'ch gweld eto blwyddyn nesaf.

Llongyfarchiadau mawr i Ladds Clunderwen am ennill y stondin orau yn y sioe. Maent wedi cael blwyddyn lwyddiannus iawn a hwy hefyd enillodd stondin orau yn Sioe Sir Benfro a Sioe Penfro.



Cwmni Ladd



....hefyd llongyfarchiadau i Sioned Jones - Briwsion Melys o Drefach Felindre am ennill y stondin orau tu fewn. Mae Sioned yn ferch i Delyth a Michael Roblin Clunderwen. Llongyfarchiadau i bob un o'r enillwyr a'r cystadleuwyr.

# CWM MILES

**Capel.** Yn anffodus nid yw iechyd y Parchg Euros Jones Evans yn ddigon da iddo wasanaethu. Felly ni fydd oedfa ym mis Medi. Fel aelodau dymunwn y gorau i Euros ar ei driniaeth.

Cynhelir Cwrdd diolchgarwch yr eglwys ar **Sul, Hydref 29ain** am 2 o'r gloch pan bydd Elonwy Phillips yn gwasanaethu. Croeso cynnes i bawb.

# EFAILWEN

Hoffem ddymuno gwellhad buan i mam Meinir Jenkins, Rhosfach sef Beryl George, sydd yn Ysbyty Llwynhelyg ar ôl codwm.

Llongyfarchiadau gwresog i Gwyndaf Lewis ar wneud ei 3ydd Ironman yn Ninbych y Pysgod yn ddiweddar. ....hefyd i Rhodri Lewis a Ffion Jones ar eu dyweddiad.

## 'Sky Dive' - Codi arian i MND



Ar yr 2il o Fedi 2023, llwyddodd Donna George i gwblhau naid skydive ym maes awyr Abertawe. Bwriad y naid oedd i godi arian er cof am ei brawd Dyfrig George a fyddai wedi dathlu ei benblwydd yn 50 oed eleni, ond a gollodd y frwydr i MND bron i 8 mlynedd yn ôl. Bydd yr arian a godwyd yn mynd at elusen MND. Bydd y gronfa yn dod i ben ddiwedd mis Medi.

Hoffai Donna ddiolch yn fawr iawn i bawb am fod mor hael gan obeithio bydd yr arian yn helpu eraill a'u teuluoedd sy'n brwydro'r afiechyd ar hyn o bryd.

BFF
Bwydydd Fferm Bwlchygroes
Masnachwyr Amaethyddol Annibynnol
• Bwyd anifeiliaid
• Ffensio
• Nwyddau ar gyfer y fferm
Am bris cystadleuol ffoniwch:
01239 698226
neu Eleri 07827 854679

GSJ
G.S.JENKINS
EFAILWEN, CLUNDERWEN
07554 664 316
Pridd wedi sgrinio ar gyfer blodau, llysiau neu lawnt, hefyd gwasanaeth hurio treilar


Gwasanaeth hurio cloddiwr 3 tunnell
Cludiant am ddim hyd at 6 milltir
GWION JENKINS
Ffôn: 01994 419222
Symudol: 07787 826574

## *Llongyfarchiadau*



**Llongyfarchiadau** mawr i Hana Megan Murray ar dderbyn gradd BSc mewn Gwyddorau Bio-Feddygol ym Mhrifysgol Caerdydd. Da iawn ti ! Pob lwc i'r dyfodol. X

# LOGIN

**Calfaria**

Oedfaon: Diolch o galon i Mr Alun Lenny a Mrs Catrin Isaac Thomas am ei gwasanaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.
Hydref
1af : Elonwy Phillips - Oedfa Gymun a Diolchgarwch am 10.30 o'r gloch.
8fed: Rihyrsal ar gyfer y Gymanfa Ganu, Tabernacl, Maenclochog - 10.30 o'r gloch
15fed: Y Gymanfa Ganu, Tabernacl, Maenclochog - 10.30 o'r gloch
22ain: Alun Lenny - Cwrdd am 10.30 o'r gloch

**Cartref Glyn Nest**

Aeth 10 o aelodau Calfaria i gynnal oedfa yng nghwmni deiliaid Cartref Glyn Nest ar brynhawn Sul, Medi 3ydd.

Cafwyd gair o groeso gan y caplan sef y Parchedig Sian Elin Thomas cyn iddi drosglwyddo'r awennau i ofal aelodau Calfaria. Cafwyd darlleniad gan Nigel, gweddi gan Eurfyl, cyfeiliwyd gan Ceirios, cyflwynwyd yr emynau gan Betty, Mefin, Beti a Nigel a canwyd tair can swynol gan Beti a Sian. Cafwyd oedfa fendithiol iawn yng nghwmni deiliaid y cartref a hyfryd oedd cael cyfle i sgwrsio gyda hwy ar y diwedd. Manteisiwyd ar y cyfle i ganu penblwydd hapus hwyr i Wil, fu'n dathlu ei benblwydd yn 100 oed rai wythnosau nol. Cafwyd cyfle i gymdeithasu ymhellach drwy fwynhau cwpaned o de a danteithion blasus. Edrychwn ymlaen i ddychwelyd i Glyn Nest i gynnal oedfa arall yno'n fuan.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn unwaith eto gyda Mary Llewellyn, Garth, ar ôl iddi golli brawd arall sef John Bowen, gynt o Trefdraeth.

**Penblwydd arbennnig**

Dymuniadau gorau i Ann Jones, Clôs Bach ar ei phen-blwydd yn 80 oed ar Hydref 30ain.

**Diolch**

Hoffai Mary Llewellyn, Garth, Login a'r teulu, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt ar golli ei brawd, John Bowen, Greystone, Tidraeth yn ddiweddar. Amser digon trist i'r teulu gan mai dyma'r ail frawd i Mary golli yn ddiweddar.

## Cylch Meithrin Ffynnonwen



Clwb haf wedi bod yn brysur iawn drwy'r haf yn gofalu am blant oedran 18 mis i 6 oed!
Pawb wedi mwynhau mas draw yn gwneud gwahanol weithgareddau i mewn ac allan.

SIOP Y FRENNI
Crymych
Nisa
Siop a Gorsaf Betrol
Gwasanaeth rhagorol a phrisiau cystadleuol bob amser
Ffôn: 01239 832900

Tŷ Bach Twt
Siop Anrhegion
Gift Shop
01239 831 144/07900 692 678
Ty Bach Twt

ALLSORTZ
Hendygwyn ar Daf
Ar agor 6 diwrnod
Cardiau•Baneri•Balŵns
Papur Lapio
Batris Duracell a Panasonic
Deunydd Swyddfa
Cynnyrch Anifeiliaid Anwes
A LLAWER LLAWER MWY

Y CARDI BACH, BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
CARIAD O BETH CARDI BACH

# YSGOL BRYNCONIN

**Plant Blwyddyn 4 a 5 –**
**Ffair Fwyd ar Faes y Sioe, Hwlffordd**

Cafodd plant o Flynyddoedd 4 a 5 amser da ar fore Mawrth, 20fed o Fehefin wrth iddyn nhw gymryd rhan mewn gweithdy bwyd ym Maes Sioe Hwlffordd. Cafwyd cyfle i ddysgu am gaws, llaeth a chigoedd gwahanol.

**Mabolgampau Ffederasiwn**

Penderfynodd Senedd Ysgol Brynconin ac Ysgol Maenclochog gynnal bore o Fabolgampau fel Ffederasiwn. Cafwyd bore o hwyl wrth i Ysgol Brynconin ac Ysgol Maenclochog ddod at ei gilydd ar Ddydd Gwener, 23ain o Fehefin. Rhoddwyd y plant mewn i dri tîm; Coch, Melyn a Gwyrddlas a chafwyd hwyl yn tynnu y rhaff, rasys wŷ a llwy a rasys rhedeg. Rhoddwyd pwyslais ar yr elfen o hwyl a chyfle i gymdeithasu.

**Taith Dosbarth Emrallt i Faenordy Sgolton Dosbarthiadau Foel Drygarn a Foel Feddau – Fferm Folly.**

Cafodd plant Dosbarth Emrallt amser da ym Maenordy Sgolton ar Ddydd Mercher, 12fed o Orffennaf. Roedd y daith yma yn rhan o waith thema'r tymor – Cynefin a chafwyd cyfle i ddysgu am fyd natur a bywyd gwyllt.

**Noson Agored**

Trefnwyd Noson Agored yn Ysgol Brynconin ar Nos Fercher, 12fed o Orffennaf i ddathlu gwaith da yr Ysgol dros y flwyddyn diwethaf. Roedd y noson yn agored i'r gymuned gyfan a chafodd y rhieni gyfle i weld gwaith eu plant. Cafwyd cyfle hefyd i glywed aelodau Senedd yr Ysgol yn cyflwyno gwaith y Senedd am y flwyddyn.

**Murlun Blwyddyn 6**

Braf oedd cael croesawu Rhys Jones, Orielodl a ddaeth i greu murlun gyda phlant Blwyddyn 6 ar Ddydd Mawrth, 11eg o Orffennaf. Cafodd y plant gyfle i greu murlun ar y Pedwar Diben. Mae'r murlun werth ei weld ac edrychwn ymlaen i gael ei arddangos am byth yn yr Ysgol.



**Trip Haf i'r Traeth**

Braf oedd cael treulio y diwrnod ar Draeth Mawr, Trefdraeth ar Ddydd Iau, 13eg o Orffennaf. Cafodd y plant amser wrth eu bodd ar eu trip haf i'r traeth.

**Lawnsio Ymgyrch Cerflun Twm Carnabwth**

Braf oedd cael bod yn rhan o noson hanesyddol yng Nghaffi Beca, Efailwen ar Nos Lun, 17eg o Orffennaf. Cafwyd gwahoddiad i gyd ganu gyda phlant o Ysgolion Beca a Maenclochog ac hyfryd oedd clywed dros 80 o blant yn canu Ysbryd Rebeca gan Tecwyn Ifan mor angerddol. Pob lwc gyda'r ymgyrch i godi cerflun o arwr ein hardal; Twm Carnabwth.

**Blwyddyn 4 yn dysgu chwarae offeryn**

Cafodd plant Blwyddyn 4 amser da yn dysgu chwarae P-Buzz dros dymor yr haf. Diolch i Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Penfro am ariannu y weithgaredd arbennig hon.



**Gwasanaeth Diwedd Blwyddyn**

Braf oedd cael cynnal ein gwasanaeth diwedd blwyddyn ar brynhawn Mercher, 19fed o Orffennaf yng nghwmni'r plant, staff a rhieni.
Braf oedd cael dathlu gwaith da yr Ysgol ac rydym yn falch o gael estyn ein diolchiadau i blant Blwyddyn 6 am bopeth maent wedi rhoi i Ysgol Brynconin dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd yn gyfle da i ni ddymuno'n dda i'r criw ac hyfryd oedd cael gwrando ar eu hatgofion melys o'r Ysgol.
Cyflwynwyd amryw o wobrau gwahanol adeg y gwasanaeth. Llongyfarchiadau i'r unigolion yma am ennill y tlysau amrywiol;

Tlws Goffa Cynghorydd John Thomas (Cyfraniad i gymuned yr Ysgol) – Peggy-Anne Hammersely
Tlws CLwb Ffermwyr Ifanc Clunderwen (Am ddatblygiad dros y tymor) – Jacob Young

Llongyfarchiadau enfawr hefyd i Peggy-Anne, Deri, Elsie, Heti ac Aurora am ennill tystysgrif 100% presenoldeb dros y flwyddyn academaidd diwethaf.





**Dymuniadau Gorau**

Trist oedd ffarwelio â 10 o ddisgyblion Blwyddyn 6 a dymunwn yn dda iddyn nhw gyd yn eu hysgolion uwchradd newydd. Pob lwc i Gracie-May, Holly, Peggy-Anne, Alfie, Jack, Joshua, Rhys, Roan, Tomos ac Wilfred.

**Blwyddyn Academaidd Newydd**

Braf yw cael croesawu pawb nôl i flwyddyn academaidd Ysgol newydd. Estynnwn croeso cynnes i blant newydd yr Ysgol. Croeso cynnes i Anaya, Shiva ac Arfon a chroeso cynnes hefyd i Freddie, Freya, Maddie, Molly, Peter ac Oliver sydd wedi dechrau gyda ni yn llawn amser. Gobeithio y byddan nhw i gyd yn mwynhau eu amser gyda ni yn Ysgol Brynconin.

# YSGOL BECA

**Croesawu staff a phlant newydd i'r ysgol**

Mae'r flwyddyn ysgol newydd wedi cael dechrau prysur gyda tri aelod o staff newydd yn ymuno â'r ysgol. Hoffwn fel ysgol ymestyn croeso mawr i Miss Sian Bryan, pennaeth dros dro, Miss Georgina Phillips, athrawes dosbarth blynyddoedd 3 a 4 a Mr Ben Batcup, athro dosbarth blynyddoedd 5 a 6.
Croeso cynnes hefyd i ddisgyblion newydd Ysgol Beca. Mae tri disgybl newydd wedi ymuno â Charn Gyfrwy sef Ella, Saorise ac Arianna. Pob lwc i chi blant a mwynhewch pob eiliad!

**Gardd yr Ysgol**



Diolch yn fawr iawn i Mrs Raven a'r holl wirfoddolwyr am gynnal gardd yr ysgol a sicrhau ei pharatoad ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd.

**Prynhawn Coffi Macmillan**

Ar y 29ain o Fedi byddwn yn cynnal prynhawn coffi er mwyn codi arian i Macmillan. Bydd y digwyddiad yn dechrau am 9.30yb a byddwn yn cynnig te, coffi a chacennau. Croeso cynnes i bawb!

**Llysgenhadon Efydd**




Llongyfarchiadau mawr i'r pedwar aelod o ddosbarth Cwm Cerwyn am gael eu hethol yn Llysgenhadon Efydd eleni. Da iawn i Tomos, Ethan, Ffion a Paige. Byddant yn gyfrifol am annog ymarfer corff ar draws yr ysgol ac yn hyrwyddo bywyd iach.

Rydym i gyd fel disgyblion, staff a chorff llywodraethol yn edrych ymlaen at y flwyddyn academaidd newydd a'r profiadau sydd i ddod!

# YSGOL GRIFFITH JONES

**Croeso**

Ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd, croesawyd 15 o blant newydd i'r ysgol. Gobeithio y byddant yn ymgartrefu'n gyflym gyda ni.

**Siarter Iaith**

Ar ddiwedd y flwyddyn ysgol yng Ngorffennaf, dathlwyd yr ymdrech a wnaethpwyd gan lawer o'n disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg o gwmpas yr ysgol. Cyflwynwyd medalau i'r plant a lwyddodd i gasglu y mwyaf o docynnau iaith ym mhob dosbarth. Bydd ein hymdrech i weithio tuag at wobr aur y Siarter iaith yn parhau eleni.

**Ymwelwyr**

Cafodd y plant lleiaf brynhawn hwylus dros ben wrth i Martyn Geraint ymweld â'r ysgol i'w difyrru. Bu dosbarthiadau Beca, Dewi a Non yn mwynhau ymuno yn y canu a'r miri.

Daeth Hannah o gwmni Plant y Goedwig i weithio gyda dosbarthiadau Beca a Non mewn gweithdy awyr agored hwylus iawn. Cafodd y plant gyfle i blannu yn ogystal â mwynhau malws melys o gwmpas y tân.

Daeth cynrychiolwyr o 'Men's Shed' Sanclêr atom i gasglu pentwr o lyfrau darllen Saesneg ar gyfer plant yn yr Iwcrain. Hyfryd oedd derbyn e-bost o'r Iwcrain yn diolch amdanynt.



Martyn Geraint yn diddori'r plant



Cwmni Plant y Goedwig




Cynrychiolwyr o 'Men's Shed' San Cler

**CRAFf**

Bu'r Gymdeithas Rieni a Ffrindiau wrthi'n brysur iawn yn ystod tymor yr Haf yn trefnu digwyddiadau i godi arian ar gyfer adnoddau i'r Ysgol. Trefnwyd taith gerdded gwisg ffansi lwyddiannus dros ben. Diolch o galon i holl rieni a ffrindiau'r Ysgol am noddi'r plant. Llwyddwyd i godi £5593! Yn hwyrach yn y tymor trefnwyd disgo ar thema 'Hawai'. Diolch yn fawr i bawb am y trefnu ac am gefnogi.

**Gwasanaeth Gadael**



Ar ddiwedd y tymor cafwyd Gwasanaeth Gadael hyfryd gan ddisgyblion Blwyddyn 6 o ddosbarth Pwyll a Myrddin. Braf oedd croesawu eu rhieni a'u perthnasau atom hefyd i ffarwelio â'r Ysgol.

## YSGOL HAFODWENOG

**Ysgolion Iach**



Cawsom wasanaeth i ddathlu llwyddiant yr ysgol i dderbyn gwobr deilen Ysgolion Iach Cam 6. Daeth Mrs Shan Thomas i gyflwyno'r ddeilen. Dim ond 7 o ysgolion Sir Gâr sydd wedi cyflawni'r wobr hon.
Diolch i Mrs Catrin Brain Cydlynydd Iechyd a Lles am arwain y prosiect hwn.

**H THOMAS a'i FAB**

**Peiriannydd Amaethyddol**



Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

**D. E. PHILLIPS**
**a'i Feibion**
**TANYBRYN, GLANDWR**
***Trydanwyr***
***Siop Radio a Theledu***
**CRYMYCH**
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

**Y GARREG LWYD**
Heol Salem, Sancler
***Cartref Oddi Cartref***



Ffoniwch y rheolwraig
01994 230855

**Gwersyll yr Urdd Llangrannog**

Bu disgyblion Cae Glas ar daith i Wersyll yr Urdd Llangrannog cyn gwyliau'r Haf. Pawb wedi mwynhau mas draw.

**Siarter Iaith**

Llongyfarchiadau i'r Criw Cymraeg a disgyblion Hafodwenog ar dderbyn gwobr aur Siarter Iaith Ysgolion Sir Gaerfyrddin. Ychydig o ysgolion sydd wedi cwblhau y wobr aur hyd yn hyn. Diolch o galon i Mrs Enfys John am arwain y disgyblion a'r staff i lwyddo i gael y wobr bwysig hon.

**Treftadaeth Gymreig**



Llongyfarchiadau i Ysgol Hafodwenog ar ddod yn ail yng nghystadleuaeth Menter y Treftadaeth Gymreig i Ysgolion. Enillodd yr ysgol £650 ac ymweliad gan awdur ar brosiect hanes yr ysgol yn dathlu hanner can mlwyddiant.

**Criced**

Bu disgyblion Cae Glas yng nghystadleuaeth criced yng Nghaerfyrddin. Diolch i Mrs Teleri Bowen am eu hyfforddi.

**Picnic yn y parc**

Cynhaliwyd picnic yn y parc i ddathlu diwedd blwyddyn ysgol. Cafodd bawb brynhawn wrth eu boddau! Diolch o galon i Angela am gyfrannu gacen fendigedig i ddathlu hefyd.

**Bagiau**

Creuwyd bagiau gan ddisgyblion blwyddyn 1 a 2 dros y tymor ddiwethaf i ddathlu hanner canmlwyddiant yr ysgol. Da iawn blant am arddangos sgiliau gwnïo, dylunio a phrintio arbennig!

**Gwasanaeth Ffarwel**

Cawsom wasanaeth ffarwel yn yr ysgol. Yn gyntaf dymunwyd yn dda i saith disgybl o flwyddyn 6 sydd wedi mynd i'r ysgol uwchradd. Joiwch mas draw. Hefyd rydym yn dweud hwyl fawr i bedwar aelod o staff. Diolch i Mrs John, Mr Dafis, Miss Meleri a Miss Rhian am eu gwaith caled a di-flino i'r ysgol. Byddwn yn gweld eich eisiau yn fawr. Pob lwc i chi gyd.

**Tymor yr Hydref**



Cynhaliom wasanaeth i groesawu dwy athrawes newydd i Ysgol Hafodwenog, Mrs Eleri Dufty a Miss Lleucu Phillips. Edrychwn ymlaen am gyfnod cyffrous newydd yn hanes yr ysgol. Croesawyd disgybl newydd hefyd i ddosbarth Rhos Fach.

## YSGOL BRO BRYNACH

Croeso nôl i'r holl ddisgyblion ar ddechrau blwyddyn newydd. Hoffwn groesawu Miss Jess Morris i'r ysgol a fydd yn dysgu yn nosbarth Lliwe. Croeso hefyd i ddisgyblon newydd yr ysgol, mae 6 o ddisgyblion wedi dechrau mis Medi yma.

Ar ddiwedd tymor yr haf cafwyd wythnos brysur yn yr ysgol. Cafwyd hwyl yn gwylio ffilmiau ar ddiwedd y tymor a mwynhau danteithion blasus.

Ar ddydd Mawrth y 18fed o Orffennaf cynhaliwyd gwasanaeth gwobrwyo yn Neuadd yr Ysgol. Buodd yn brynhawn hwylus gyda disgyblion blwyddyn 6 yn actio fel aelodau staff yr Ysgol mewn 'Sioe Ffasiwn Bro Brynach'. Derbyniodd disgyblion Bl 6 wobrau am weithio'n galed yn ystod y flwyddyn. Uchafbwynt y gwobrwyo yw gwobr Mr Henry, cyn bennaeth Ysgol Llanboidy.

PREN DA
Gwaith coed o bob math
**Dafydd Makepeace**
Fferm y Cross
Llandysilio
Clunderwen
Ffôn 07967 220289

DERI PAGE
CIGYDD

Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
*Diolch am eich cefnogaeth*

GT TYRES

Arbenigwr mewn Teiars Ceir, Masnachol ac Amaethyddol
**Brooklyn Garage**
**Heol y Castell**
**Aberteifi. SA43 3AE**
☎: 01239 612814 / 07765 034705

Enillwyd y darian eleni gan Holly Morris am ei chyfraniad i'r ysgol dros y blynyddoedd a'i hagwedd bositif tuag at ddysgu a bywyd yr ysgol. Llongyfarchiadau mawr i Holly ac i weddill y disgyblion. Gweler isod restr o'r enillwyr.

Gwobr Mr Henry – Holly Morris
Gwobr Giglyr y flwyddyn – Celyn Phillips a Ffion Smith
Gwobr Artist y flwyddyn – Harry Frost
Gwobr Garddwr y flwyddyn – Kayden Davis a Max Mellor
Gwobr Ymdrechwr – Isobel Pugh
Gwobr Athletwr – Sean Davis
Gwobr Athletwraig - Mabli King
Gwobr Perfformwraig – Poppy Beynon
Gwobr Cerddor – Grace Boothroyd, Noah Fabian a John Cowley
Thema y tymor yma yw 'Mi welaf i….' Edrychwn ymlaen i glywed a datblygu syniadau'r disgyblion.



Disgyblion Bl 6



Disgyblion Bro Brynach yn ddymuno pob hwyl i Gymru yng Nghwpan Rygbi'r Byd. C'mon Cymru!

Ar ddydd Gwener y 29ain o Fedi mae'r Ysgol yn cynnal Bore Coffi Macmillan o 9:30-10:30 yn Neuadd yr Ysgol, croeso cynnes i bawb.

## *Priodas Dda*





Llongyfarchiadau i Mari Gibby a Jason Reynolds ar eu priodas ar y 12fed o Awst.

Pob dymuniad da i'r ddau oddi wrth pawb yn Ysgol Bro Brynach.

**DATHLU 50**
**HOELION WYTH**

17.11.23
CAFFI EMLYN - TANYGROES
7.30yh
Pris tocyn: £7
Bwyd ar gael ar y noson

Noson o Adloniant a Chymdeithasu
Llywydd: Mr John Davies, Y Graig,Aberporth
ADLONIANT GAN PARTI CAMDDWR
Elw yn mynd tuag Sefydliad DPJ

OWEN PHILLIPS
Llanddewi Efelffre
SAER COED
Ffôn Symudol:
07919 524569

G&S Llewellyn a'i Mab

Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clunderwen. SA66 7TX
Ffon: 01437 563320

Olew Oil
Trefigin
sef. 1985 est. 1985
Y Gwasanaeth sy'n Gwresogi
TANWYDD TŶ
DERV
DISEL FFERM
LIWB OLEW
HEATING OIL
DERV
FARM DIESEL
LUBRICANTS
Warm to our Service
Cwmni annibynnol, teuluol, lleol, Cymraeg
(01239) 881630
www.trefigin.cymru
(01239) 881282





**ARBENIGWR LAND ROVER ANNIBYNNOL**

**MOT**

**•CEIR •BEICIAU MODUR •FANIAU •4x4**

**Offer Diagnostig Diweddaraf**







**Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin**

Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.

Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

•RHANNAU SPAR •GWASANAETH •TEIARS •BATRIS•WELDIO •TRACIO PEDAIR OLWYN •TYMHERU AER

**Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313**

Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP



Côr Meibion De Cymru yn cyflwyno

**CYNGERDD MAWREDDOG**

yn Neuadd y Farchnad, Llanboidy

Nos Sadwrn, 14eg Hydref 2023 am 7yh

**Unawdwyr gwadd:**

Jessica Robinson a Trystan Llŷr Griffiths

**Arweinydd:** Parch. Huw George

**Llywydd:** Cyng. Jean Lewis

Tocynnau: **£15** / Plant 5-15 oed **£10**

ar gael wrth Gwynlais Phillips

07837 029393 / 01994 448333

neu Huw Davies 07583 853557

ebost: garethhuwdavies@msn.com

neu o wefan Côr Meibion De Cymru:

www.southwalesmalechoir.co.uk

*Elw tuag at Gronfa teulu Chris John a CMDC*

**WEDI GWERTHU ALLAN**



Jones Login

Teithiau o Safon
*Quality Coach Travel*

**Login**
**Hendygwyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0UX**
**Ffôn: 01437 563277**
**www.joneslogin.co.uk**





| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Hydref** | | |
| Llun 16 | **Gwesty Warner - Castell Studley, Sir Warwick** | 5* |
| Mer 18 | *Daniel O'Donnell, NDS, Caerdydd* | 1 |
| Maw 24 | **Llandudno - Gwesty'r Tynedale** | 5* |
| **Tachwedd** | | |
| Sad 18 | *Sioe Gerdd Sister Act, CMC a* Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 27 | **Twrci a Tinsel - Torquay (Gwesty'r Headland)** | 5* |
| **Rhagfyr** | | |
| Gwe 8 | **Nadolig Chatsworth a Chaer** | 3 |
| Sad 9 | Sioe Olau 'Luminate' Gardd Fotaneg Cymru | 1 |
| Sad 16 | *Sioe Gerdd - Aladdin, CMC a* Bae Caerdydd | 1 |
| Sad 23 | **Gwyliau Nadolig - Gwesty'r Headland, Torquay** | 5* |
| **Ionawr 2024** | | |
| Mer 24 | *Sioe Ddawns - Giovanni Pernice, NDS* | 1 |
| **Chwefror 2024** | | |
| Sad 3 | *Sioe Gerdd - Jesus Christ Superstar, CMC* | 1 |
| Sad 10 | **Torquay** | 5* |
| Llun 26 | *Rick Astley, Caerdydd* | 1 |
| **Ebrill 2024** | | |
| Llun 15 | **Cernyw ac Ynysoedd Scilly** | 5* |
| Sad 20 | *Sioe Gerdd - An Officer & a Gaentleman, CMC* | 1 |
| Gwe 26 | **Gwyl Corau Meibion Cymru, Neuadd Albert, Llundain** | 3 |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Mai 2024** | | |
| Iau 2 | **Ynysoedd Shetland, Royal Deeside a Pitlochry** | 9* |
| Sad 4 | *Sioe Gerdd Pretty Woman, CMC a* Bae Caerdydd | 1 |
| Sad 11 | **Amgueddfa Sain Ffagan** | 1 |
| Llun 13 | **Blodau Sir Norfolk** | 5* |
| **Mehefin 2024** | | |
| Llun 10 | **Gwesty Warner - Holme Lacy** | 5* |
| Mer 19 | **Diwrnod y Merched, Royal Ascot** | 3 |
| **Gorffennaf 2024** | | |
| Sad 27 | *Sioe Gerdd - Wizard of Oz, CMC a* Bae Caerdydd | 1 |
| Maw 30 | **Llandudno** | 5* |
| **Awst 2024** | | |
| Llun 5, Mer 7 a Gwe 9 | Eisteddfod Genedlaethol | 1 |
| Gwe 23 | Diwrnod y Merched, Cae Ras Ffoslas | 1 |
| **Medi 2024** | | |
| Llun 2 | **'All Features Great & Smal** | 5* |
| Sad 7 | *Grease, CMC a* Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 9 | **'Picture Perfect Suffolk'** | 5* |
| Sad 14 | Canolfan Treftadaeth Gwyr | 1 |
| Llun 16 | **'Sussex Bygone Years' a'r 'Repair Shop'** | 5* |
| Llun 23 | **Deintyddion Northumbria** | 5* |
| **Hydref 2024** | | |
| Sad 5 | **ABBA Voyage a Windsor** | 2 |

**Llyfryn 2024 ar gael yn y Gymraeg ar-lein ac mewn print!!**

**Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!**

Ar ôl Haf yn llawn gweithgareddau amrywiol, mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn brysur iawn yn trefnu ein sesiynau rheolaidd ar gyfer Tymor yr Hydref.

**Siaradwyr Newydd:**
Mae Coffi a Chlonc yn ôl! Dyma gyfle i ddod ynghyd i sgwrsio a chymdeithasu dros baned bob bore dydd Iau am 10.30yb ar Zoom. Mae'r weithgaredd yma yn addas ar gyfer dysgwyr neu siaradwyr rhugl. I dderbyn y linc cysylltwch gyda ymholiad@mgsg.cymru. Mae'r Fenter yn cyd-drefnu sesiynau Paned a Sgwrs yng Nghaffi'r Atom, bob dydd Mawrth o 10-11yb. Cyfle i sgwrsio a chymdeithasu dros baned. Croeso i siaradwyr newydd a siaradwyr rhugl i ymuno. Cynhelir sesiynau Paned a Phapur yn yr Amgueddfa Wlân, Drefach Felindre ar ddydd Mercher bob pythefnos. Croeso i siaradwyr newydd a siaradwyr rhugl i ymuno yn y sesiynau hwylus yma. Bydd sesiynau newydd Shwmae a Siarad yn cael eu cynnal unwaith y mis ar fore Gwener yng Nghaffi Cwtsh Coffi, yr hen glwb pêl-droed, Castell Newydd Emlyn rhwng 10:30-11:30. Fydd y sesiwn gyntaf ar y 13.10.23. Edrych ymlaen i'ch gweld yno.
Am unrhyw wybodaeth am ein sesiynau, cysylltwch gyda ymholiad@mgsg.cymru.

**Sesiynau stori:**
Mae ein sesiynau stori yn ôl ar ôl saib yr Haf. Bob pythefnos, fydd sesiwn stori yng Nghaerfyrddin ar ddydd Llun yn Llyfrgell Caerfyrddin am 10:30am. Yn San Clêr, fydd sesiwn stori ar ddydd Iau yn Llyfrgell San Clêr, Y Gât am 1:30pm. Ymunwch â ni yn y sesiynau stori yma. Cysylltwch gyda gwyneth@mgsg.cymru i gofrestru neu am wybodaeth pellach.

**Clybiau Drama:**
Mae'r Fenter a Theatr Genedlaethol Cymru yn cynnig dau glwb drama i blant yr ardal, Clwb Joio Drama ar gyfer blynyddoedd 1-3 ar nos Fercher o 5-5.45pm ac i flynyddoedd 4-6 o 6-7pm. Mae'r clybiau yn cael eu cynnal yn y Stiwdio, Theatr y Lyric, Caerfyrddin. Cyfle i blant dysgu sgiliau, magu hyder a mwynhau. I gofrestru, cysylltwch gydag betsan@mgsg.cymru. Diolch i Theatrau Sir Gâr am y croeso cynnes i'r theatr yn wythnosol.

**Clwb Garddio:**
Mae'r Fenter yn cydweithio gyda Cered – Menter Iaith Ceredigion i drefnu Clwb Garddio yn Yr Ardd, Pont Tyweli a hynny ar ail ddydd Sadwrn y mis o 11yb-1yp. Cyfle i blannu a thyfu llysiau, ffrwythau a blodau. Croeso i bawb; oedolion a theuluoedd (angen oedolyn yn bresennol gyda phlant a phobl ifanc o dan 18 oed). I gofrestru: ymholiad@mgsg.cymru

**Dished Ddigidol:**
Wrth gyd-weithio gyda'r Atom, mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn cynnal sesiynau digidol anffurfiol dros ddished. Gellir dderbyn cymorth gyda thabled, iPad, gliniadur, ffôn symudol, apiau a sut i ddefnyddio'r wê. Dyddiadau mis Hydref fydd y 6ed ar 20fed am 10-12pm. I archebu lle neu am fwy o wybodaeth, cysylltwch â helo@yratom.cymru neu ymholiad@mgsg.cymru.

**Cyfryngau Cymdeithasol:**
Facebook - Menter Gorllewin Sir Gar
Trydar - @MenterGSG
Instagram - @MenterGSG
E-bost - ymholiad@mgsg.cymru neu am fwy o wybodaeth ar sut i gyrraedd y platfformau yma cysylltwch â ni ar y ffôn: 01239 712934.

## Aelwyd Crymych yn dathlu penblwydd yn 80 oed!

Dewch i ymuno â ni i hel atgofion am Aelwyd Crymych ar brynhawn Sadwrn 28.10.23 rhwng 2 o’r gloch a 5 o’r gloch yn Neuadd Ysgol y Frenni, Crymych.

Croeso cynnes i gyn aelodau ac aelodau presennol, teuluoedd, ffrindiau a chyn arweinyddion.

Bydd cyfle i weld hen glipiau o weithgareddau yr Aelwyd a bydd eitemau amrwyiol gan aelodau presennol a chyn aelodau yr Aelwyd.

Ein bwriad hefyd yw creu arddangosfa o hen luniau yr Aelwyd. Gofynnwn yn garedig am unrhyw hen luniau o weithgareddau Aelwyd Crymych. Bydd modd rhannu nhw gyda’r arweinyddion presennol:
Sian Williams - 07817284241
Edryd Eynon - 07891082709
Dyfed Sion - 07976003331
Neu dewch â nhw i’r Aelwyd ar Nos Iau.


## Dathlu 50 mlynedd Ysgol Beca

Dyma rai lluniau a dynnwyd ystod y nos



Cacen y dathlu


Welsh Whisperer



Eurfyl Lewis yn galw’r Twmpath


Meredydd Phillips yn torri’r gacen


Y Band


Dawnsio Twmpath

# Gŵyl Bro'r Preseli 2023
# Hydref 13eg - 25ain

**Nos Wener, Hydref 13eg am 7:30yh yn Theatr y Gromlech**
**Noson Lawen Cwmni Theatr Bro'r Preseli.**
Tocynnau: £10.00 / Plant ysgol £5.00



**Nos Lun, Hydref 16eg am 7:30yh yng Nghanolfan Ddysgu Gymunedol Preseli**
**Agoriad Swyddogol Arddangosfa Marian Delyth gyda Meirion Jones yn Cadeirio.**



**Nos Fercher, Hydref 18fed yng Nghanolfan Ddysgu Gymunedol Preseli**
**Darlith gan y newyddiadurwr Eifion Glyn gyda Aled Scourfield yn Cadeirio.**
Tocynnau: £3.00

**Dydd Gwener, Hydref 20fed am 10:30yb yn Neuadd Bwlchygroes**
**Taith Gerdded i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg o dan arweiniad Terwyn Tomos.**

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Sir Benfro
Pembrokeshire



**Nos Sadwrn, Hydref 21ain am 7:30yh yn Theatr y Gromlech, Crymych**
**Noson o sgwrs a chân yng nghwmni Ryland Teifi.**
Lluniaeth o gaws a gwin.
Tocynnau: £12.00 / Plant ysgol £8.00

**Nos Lun, Hydref 23ain am 7:30yh yn Neuadd Bwlch-y-groes**
**Cwis Wês Glei**
mewn cydweithrediad â Menter Iaith Sir Benfro
Gwobr o £50 a Tharian Her Cware Trefigin

menter iaith Sir Benfro

**Nos Fercher Hydref 25ain yn Theatr y Gromlech, Crymych**
**Drama ' Y Ddraenen Ddu'**
Cwmni Theatr Bara Caws yn cyflwyno addasiad Angharad Tomos o'r ddrama *Blackthorn* gan Charley Miles.
Tocynnau: £12.00 / Plant ysgol £8.00

Am fwy o wybodaeth a thocynnau ewch i
gwyl-bror-preseli.yapsody.com/
Tocynnau hefyd ar werth yn Siop Siân ac Awen Teifi.



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## Teithiau 2023

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sul 1af Hydref | NEWCASTLE a NORTHUMBRIA | £535 | 6 Diwrnod |
| Gwener 6ed Hydref | LOOE ac ARFORDIR CERNYW | £355 | 4 Diwrnod |
| Gwener 13eg Hydref | HWYL a SBRI gyda CLIVE a'I Ffrindiau yn BOURNEMOUTH | £410 | 4 Diwrnod |
| Gwener 20fed Hydref | AWYRENNAU, TRENNAU A CHERBYDAU | £410 | 4 Diwrnod |
| Gwener 27ain Hydref | WESTON SUPER MARE | £335 | 4 Diwrnod |
| Gwener 3ydd Tachwedd | TWRCI A THINSEL YN DYFFRYN GWY (Wye Valley) | £345 | 4 Diwrnod |
| Gwener 10fed Tachwedd | UCHELWYDD A GWIN YN BABBACOMBE | £295 | 4 Diwrnod |
| Llun 13eg Tachwedd | CELYN AC UCHELWYDD YN LLANDUDNO | £515 | 5 Diwrnod |
| Gwener 17eg Tachwedd | MARCHNADOEDD NADOLIG - CHELTENHAM a GLOUCESTER | £245 | 3 Diwrnod |
| Sul 19eg Tachwedd | TWRCI A THINSEL NADOLIG YN SCARBOROUGH | £510 | 6 Diwrnod |
| Llun 27ain Tachwedd | TWRCI A THINSEL YN Y BELGRAVE SANDS TORQUAY | £440 | 5 Diwrnod |
| Gwener 1af Rhagfyr | Ymunwch gyda Santa ar TREN Y GOLEUNI NADOLIG YN PAIGNTON | £335 | 4 Diwrnod |
| Sul 3ydd Rhagfyr | Taith i CERNYW, St Agnes, Penzance a Falmouth | £330 | 4 Diwrnod |
| Llun 4ydd Rhagfyr | CRACER NADOLIG CERNYWEG YN LOOE | £410 | 5 Diwrnod |
| Gwener 8fed Rhagfyr | PENWYTHNOS PARATOI AR GYFER Y NADOLIG YN LLUNDAIN | £290 | 3 Diwrnod |
| Sadwrn 30ain Rhagfyr | DATHLU'r FLWYDDYN NEWYDD YN WATERFORD IWERDDON | £490 | 4 Diwrnod |

## Teithiau 2024

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwener 12fed Ionawr | Penwythnos yn yr hên Ffefryn - WESTON SUPER MARE | £280 | 4 Diwrnod |
| Gwener 19eg Ionawr | Aduniad Cwsmeriaid a Ffrindie Bysiau Cwm Tâf yn TORQUAY | £260 | 4 Diwrnod |
| Gwener 2ail Chwefror | Penwythnos yn Gwesty'r Queens, Paignton | £280 | 4 Diwrnod |
| Gwener 12fed Chwefror | Bournemouth yn ymweld a'r New Forest a Beaulieu | £395 | 5 Diwrnod |
| Iau 22ain Chwefror | Penwythnos Rygbi Iwerddon v Cymru -Gwesty'r Talbot , Stillorgan | £465 | 4 Diwrnod |
| Iau 22ain Chwefror | Gêm Rygbi Iwerddon v Cymru - Gwesty'r Bonnington, Dulun | £465 | 4 Diwrnod |
| Iau 22ain Chwefror | Penwythnos Rygbi Iwerddon v Cymru - ENNISCORTHY | £385 | 4 Diwrnod |
| Iau 29ain Chwefror | Mordaith Ddychmygol yng Ngwesty'r Tynedale, Llandudno | £510 | 5 Diwrnod |
| Gwener 1af Mawrth | Ymunwch â Clive a'I Ffrindie i ddathlu Gwyl Dewi yn Caernarfon | £250 | 3 Diwrnod |
| Llun 7fed Mawrth | GOGONEDDAU ARFORDIR CERNYW - ST AGNES | £395 | 5 Diwrnod |
| Llun 11fed Mawrth | BOGNOR REGIS a'r "SOUTH DOWNS" | £395 | 5 Diwrnod |
| Gwener 15fed Mawrth | PENWYTHNOS YN BABBACOMBE | £305 | 4 Diwrnod |
| Gwener 22ain Mawrth | LOOE ac ARFORDIR CERNYW | £305 | 4 Diwrnod |
| Llun 1af Ebrill | YNYS WYTH - Isle of Wight. Gwesty Trouville SANDOWN | £445 | 5 Diwrnod |
| Sul 7fed Ebrill | SCARBOROUGH a Rhostir Gogledd Swydd Efrog | £535 | 6 Diwrnod |
| Gwener 12fed Ebrill | Gwesty'r Belgrave Sands TORQUAY | £325 | 4 Diwrnod |
| Mawrth 16eg Ebrill | TAITH DDIRGEL MIS EBRILL i ??????????? | £365 | 4 Diwrnod |
| Gwener 19eg Ebrill | PENWYTHNOS YN EFROG | £335 | 4 Diwrnod |
| Llun 22ain Ebrill | Yr EIDAL -Y Dolomites Dramatig a'r Llynnoedd Disglair | £995 | 8 Diwrnod |
| Gwener 26ain Ebrill | BLAS O GYMRU YN Y TYNEDALE, LLANDUDNO | £415 | 4 Diwrnod |
| Llun 29ain Ebrill | DEWCH i DDARGANFOD DINAS LERPWL ar ei gorau | £535 | 5 Diwrnod |
| Gwener 3ydd Mai | DANTEITHION PAIGNTON ac ARFORDIR HARDD DYFNAINT | £340 | 4 Diwrnod |
| Llun 6ed Mai | NORFOLK - TRENNAU, LLONGAU a SANDRINGHAM | £565 | 5 Diwrnod |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**

**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**

**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**

# PENBLWYDD HAPUS




Penblwydd Hapus i Thom Davies o Gaerdydd, yn ddwy oed ar Fedi 29ain. Mae Thom yn fab i Rhodri a Hannah ac yn ŵyr i Lyn a Bethan, Derlwyn Taf, San Cler.



Penblwydd hapus i Gwenno Rebecca Jones, Blaenau a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 7 oed ar 19eg o Fedi. Cariad mawr wrth Dad, Mami, Sara; Mamgu a Tadcu Bancyfelin a'r teulu oll.





Pen-blwydd hapus i Griff yn 7 oed ar Fedi 21ain. Cymeriad drygionus y teulu sy'n hoff o rannu jôc a chwarae pêl-droed. Cariad mawr wrth Mam, Dad, Efan, Mamgu Llinos, Geraint, Hen Dadcu Roy, Mamgu a Dadcu Pennant a'r teulu oll. xx



Penblwydd Hapus i Alaw Fflur Evans, Ysgubor Uchaf, Pedair Heol a fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 8 oed ar Hydref 8fed. Cariad mawr wrth Dadi a Mami, Ffion a Harri; Cari, Tadcu a Mamgu Cwmfelin a'r teulu i gyd. xx




## CODI ARIAN I GRONFA COFFA CHRIS JOHN



Yn y llun gwelir Eirian James yn cyflwyno siec o £1600 i Henry John, er cof am ei fab Chris. Codwyd yr arian drwy gynnal noson Bingo gyda raffl ac ocsiwn. Trefnwyd y digwyddiad gan Glwb Chwaraeon Llanboidy.

# Blodau Haul

**CYSTADLEUAETH** Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro

Mae tymor y blodau ar ben ac mae Bwgi-bo yn teimlo'n ddigalon i weld yr holl flodau haul oedd yn tyfu yng ngardd Mam-gu Iet-wen yn diflannu.

**Fedrwch chi ddyfalu faint o'r cewri melyn oedd yno yn ystod misoedd yr haf?**



**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/10/23**

**Leia Jenkins, Ael y Bryn, Meidrim yw enillydd Cystadleuaeth Cân yr Adar**

**Ateb:** Titw tomos las, robin goch, gwennol, aderyn du, titw mawr a nico welodd y frân fusneslyd.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

ⓗ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2023

**Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.**

*clwb criced Hendygwyn - parhad o dudalen 43*

Llwyddodd y Tîm Ieuectid i gyrraedd Rownd Derfynol Cwpan Ormond y Sir. Colli fu'r hanes yn erbyn tîm cryf oedd yn cynnwys chwaraewyr o Carew a Lawrenny ond gwnaeth y bechgyn frwydro yn dda tan y diwedd. Mae'r timau o Dan 9, 11, 13 a 15 wedi chwarae yn eu adrannau a diolch i'r hyfforddwyr am roi o'u amser ac i'r rhieni am eu cefnogaeth. *Trefor Evans*



Tîm Ieuenctid Hendygwyn wnaeth gyrraedd rownd derfynol Cwpan Ieuenctid Sir Benfro



Llongyfarchiadau i Cian Rees ar cael ei ddewis i dderbyn y wobr o fod y bowliwr ifanc gorau yn Sir Benfro. Mae hyn am ei berfformiadau i dîm dan 15 Gorllewin Cymru yn ogystal â'i berfformiadau i Hendygwyn pryd llwyddodd i gymeryd 5 wiced ar ddau achlysur. Yn y llun gwelir Cian yn derbyn ei wobr oddiwrth Mr David Brandon, Cadeirydd Sir Benfro.

## Clwb Bowlio Mat Byr Hendygwyn

Ar ôl diwedd y tymor cynhaliwyd noson i wobrwyo enillwyr cystadlaethau'r clwb. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd Mr Les Evans. Braf iawn oedd cael cwmni ein Llywydd Mr David Harries a'i wraig ac hefyd ein aelod oes Mr Ron Jenkins. Ar ôl i bawb fwynhau y bwyd cyflwynodd Mr Jenkins y tlysau i enillwyr y senglau a'r parau a Mr Harries i enillwyr y triplau a'r pedwarau.



Enillwyr y Noson Wobrwyo

Yr enillwyr oedd:
Senglau: Claude James • Parau: Glyn James, Shashi Patel • Triplau: Les Evans, Trefor Evans, Mel Jenkins
Pedwarau: Marjorie Cripps, Mike Taylor, Mike Williams, Mel Jenkins

Mae'r tymor newydd wedi dechrau gyda'r clwb yn Ail Adran Sir Gaerfyrddin gyda 11 tîm arall. Mae'r clwb yn cwrdd ar Nos Fawrth yn Neuadd y Dref a mae croeso i aelodau newydd ymuno gyda ni. *Trefor Evans*




**Emrys ac Ann Murrow**

**Motel Nantyffin**
**Llandysilio**
**Bwyty • Neuadd Wledda**
**ar gyfer priodasau, cynadleddau, dawnsfeydd, cyngherddau**
**Croeso cwrtais bob amser**
**Ffôn: 01437 563423**
**Ffacs: 01437 563329**



Celia Vlismas
OPTEGYDD
Croeso i gleifion GIG!
**Profion golwg GIG ar gael**
Yn gyflym ac yn hawdd i unrhyw un sy'n gymwys i gael gofal llygaid GIG
Castell Newydd Emlyn 01239 711888
Crymych 01239 831555
Arberth 01834 861373
www.celiavlismasopticians.co.uk

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf
**Robert W. R. Morgan**
ECA CYMERADWYEDIG GAN NICEIC
17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF
Ffôn: 01994 240946 - Symudol 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

# Clwb Pêl-droed Llanboidy

**Tymor 2023-24**
Mae tymor 2023-24 wedi dechrau i Glwb Pêl-droed Llanboidy.

**Tîm 1af**
Dechreuodd tymor y tîm cyntaf ar Awst 15fed a hynny yn erbyn Clwb Pêl-droed Crymych yn Nhegryn. Ers hynny mae'r tîm wedi chwarae 6 gêm yng nghynghrair cyntaf Ceredigion, gan ennill 1 gêm, cael 1 gêm gyfartal a cholli 4 gêm.

Isod mae canlyniadau'r gemau gan gynnwys sgorwyr goliau'r Clwb:

15.08.23 – Crymych 1-1 Llanboidy (Frazer Wyatt)

19.08.23 – Llanboidy 3-2 Crannog (Geth Scourfield x 2, Jac Griffiths)

23.08.23 – Llanboidy 2-5 Bargoed Rangers (Nick Jones x 2)

29.08.23 – Aberteifi 4-0 Llanboidy

02.09.23 – Llanboidy 0-1 Ffostrasol

09.09.23 – Llanboidy 4-5 Llechryd (Phil Howells, Geth Scourfield x 2, Nick Jones)

Mae gemau yn dod fyny yn erbyn Felinfach, tîm cyntaf Tregaron yng Nghwpan Emrys Morgan a hefyd ail dîm Tregaron yng Nghwpan Dai Dynamo Davies.

**2il Dim**
Dwy gêm mae'r 2il dîm wedi chwarae hyd yn hyn, a hynny yn erbyn Llandysul a Chrannog. Yn anffodus, colli'r ddwy gêm hefyd. Isod mae'r canlyniadau a'r sgorwyr.

02.09.23 – Crannog 3-1 Llanboidy 1 (Cameron Mountford)
09.09.23 – Llandysul 4-0 Llanboidy

Mae gemau yn dod fyny yn erbyn Llanon, Llambed a Bargoed Rangers dros yr wythnosau nesaf.

Rydym o hyd yn edrych am chwaraewyr newydd i'r Clwb - mae'r ymarferion yn cael eu cynnal ar hyn o bryd yng Nghae Dandre, Llanboidy pob nos Fawrth am 18.30yh. Er hyn, rydym yn chwilio i ymarfer mewn lleoliad gwahanol dros y gaeaf oherwydd ei bydd yn tywyllu'n gynnar. Bydd mwy o wybodaeth am hyn ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol y Clwb.

**Adran Iau**
Dros yr haf rydym wedi dechrau ymarferion adran iau'r Clwb, a hynny bob bore Sadwrn am 10yb yng Nghae Dandre. Croeso cynnes i unrhyw un rhwng 5-16 oed i ymuno a'r timau dan 6, dan 8, dan 10, dan 12 a 13+ sydd gyda ni.

Byddwn yn edrych i gynnal gemau a chymryd rhan mewn amryw o gystadlaethau ar draws y tymor, felly dilynwch neu cysylltwch gyda ni ar ein cyfryngau cymdeithasol am fwy o wybodaeth. *Rhodri Lewis*



*Llun: Dan Blain*

Frazer Wyatt yn sgorio cic o'r smotyn yn erbyn Crymych



*Llun: Lucy Norbury*

Ifan Jones yn erbyn Ffostrasol

# Clwb Criced Hendygwyn

Daeth tymor criced arall i ben gyda'r tywydd yn amharu tipyn ar gemau yn ystod Gorffennaf ac Awst. Er hyn llwyddodd y tim cyntaf i frwydro tan y diwedd i orffen yn ail yn yr adran gan lwyddo i sicrhau dyrchafiad yn ôl i Adran Gyntaf Sir Benfro. Collodd y tim yr un gem yn ail hanner y tymor gan gynnwys trechu y pencampwyr Hwlffordd gan ennill 12 a dim ond colli 2 gem. Kevin Pearce oedd y prif sgoriwr gyda 561 o rediadau a Cian Rees, sydd ond yn 15 oed, cipiodd y fwyaf o wicedi. Llongyfarchiadau i'r capten Jonathan Thomas a'r tim i gyd.

Tymor cymysg i'r ail dim gan ennill 5 o'r 11 gem a chwaraewyd. Iwan Bevan oedd seren y tim gan sgorio 390 o rediadau a cymeryd 13 wiced. Llongyfarchiadau hefyd i Harry Fuller am sgorio 114 ac i Rhys Jones a lwyddodd i sgorio ei hanner cant cyntaf yn y gynghrair gan gwneud hyd yn oed yn well ychydig wythnosau wedyn wrth sgorio 103. Yn anffodus ymharodd y tywydd yn fawr ar y trydydd tim gan iddynt chwarae ond 6 allan o 15 gem gan ennill 3.

*parhad ar dudalen 42*

# CHWARAEON – Clwb Rygbi San Cler

Ar ôl ennill dyrchafiad i Adran 2 y Gorllewin tymor diwethaf, mae'r garfan wedi hyfforddi'n dda dros yr haf a'n hunig gêm cyn i'r tymor gychwyn oedd adref yn erbyn Clwb Rygbi Brynaman o Adran 1. Gwnaethom ennill y gêm 24 - 7. Fe wnaethon ni hefyd fwynhau taith i'r Valero 7s a gynhaliwyd yng Nghlwb Rygbi Dinbych y Pysgod gan ennill cystadleuaeth y Plât ar ôl colli yn y rownd gyn derfynol yn erbyn tîm cryf y Ponty Butchers.

Ein gêm gynghrair gyntaf oedd ymweliad â Chlwb Rygbi Dinbych y Pysgod sy'n cael ei ffansïo am ddyrchafiad tymor hwn - ac yn sicr bydd ei blaenwyr grymus yn creu dipyn o ffwdan ac anhawster, i'r rhan fwyaf o'i gwrthwynebwyr. Fe gamodd y Seintiau i fyny a chwarae hanner cyntaf 49 munud o rygbi deniadol. Fe wnaethon ni golli allan ar ambell gyfle i sgorio cais, ac er taw Dinbych y Pysgod wnaeth ddominyddu'r sgrymiau a'r llinellau, Sanclêr wnaeth chwarae y rhan fwyaf o'r rygbi ymosodol. Roedd San Cler ar y blaen 5 – 12 ar un adeg, diolch i geisiau gan Dafydd Waters ac Alun Davies, ond sgoriodd Dinbych y Pysgod yn hwyr yn yr hanner cyntaf i wneud y sgor yn 12-12 ar yr egwyl.

Gwnaeth Dinbych y Pysgod fanteisio ar ei cyfleoedd yn ystod yr ail hanner drwy sgorio dau gais, ac unig sgor San Cler oedd ail gais i Dafydd Waters, wedi ei drosi gan Dan Griffiths, Y sgor terfynol oedd Dinbych y Pysgod 24 San Cler 17.


Fe wnaethom groesawu Tycroes i Barc Griffith Jones ar ddydd Sadwrn, Medi 9fed, ar ddiwrnod cynhesaf y flwyddyn. Er gwaetha'r gwres, fe wnaethom sgorio 6 cais, y cyfan wedi eu trosi gan Dan Griffiths. Roedd y bechgyn yn awyddus i symud y bêl ar bob cyfle a gwnaethom sgorio yn rheolaidd, er i Tycroes gymryd ei cyfleoedd hefyd. Yn y pen draw, enillon ni'n gyfforddus 42 – 17, gyda dau gais yr un i Liam Rogers a Dafydd Waters a cais yr un i Dafydd Evans a Jac Howells. Rydym yn teimlo'n fodlon iawn ar ddechrau'r tymor newydd a byddwn yn teithio i Lanbed wythnos nesaf, pryd byddwn yn gobeitho talu'r pwyth yn ôl am golli yn ei herbyn dair gwaith ar ddiwedd tymor diwethaf.

Mae ein tim ieuenctid hefyd nôl yn chwarae. Gwnaethant ennill yn erbyn Cwmgors a colli yn erbyn Llanbed mewn dwy gêm baratoadol cyn dechrau'r tymor. Gwnaeth y bechgyn ifanc deithio i'r Tymbl ar gyfer gêm gynghrair cynta'r tymor, gan golli o 30 – 5 yn erbyn tîm cryf iawn. Bydd ei gêm nesaf adref yn erbyn Penybanc. Pob lwc i chi gyd am y tymor.

*Gwyndaf Williams*







*Lluniau: Chris Rees*

# Clwb Rygbi Hendygwyn

**Dynion**

Mae'r tymor newydd wedi dechrau erbyn hyn, wrth i ni chwarae gêm gyntaf y tymor i ffwrdd yn erbyn Crwydraid Llanelli ar brynhawn Sadwrn, Medi 2il.
Colli fu ein hanes o 44-3, unig bwyntiau Hendy Gwyn oedd cic gosb i Geraint Jones. Cawsom well canlyniad ar Sadwrn, Medi 9fed yn erbyn Penclawdd wrth i ni ennill 27-14. Sgoriodd Owyn Griffiths a Scott Newton gais yr un a llwyddodd Geraint Jones gydag 1 trosiad a 5 cic gosb.

**Menywod**

Bydd gêm gyntaf y menywod i ffwrdd yn erbyn Pontyclun ar Medi 10fed ac yna bydd gêm adref ganddynt yn erbyn Cobra ar Fedi 24ain.

Pob dymuniad da i'r holl dimau ar gyfer y tymor.

*Suzanne Davies*




David Harries a Brian Jones, noddwyr, yng nghwmni Benji Kirk, capten y tîm cyntaf.